



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Côd ar yr arferion orau ar gyfer Sefydliadau Lles Anifeiliaid

Sefydlwyd 2006 - Established 2006

awrw

RHWYDWAITH LLES ANIFEILIAID CYMRU

Cyngor y Sector ar gyfer Anifeiliaid | Sector Council for Animals

ANIMAL WELFARE NETWORK WALES

Cynnwys

Rhagair	1
Diffiniad a chyd-destun	2
Rhan 1: Llywodraethu a Rheoli	4
1.1 Llywodraethu	4
a) Polisiau	5
b) Deddfwriaeth	6
c) Rheolaeth Ariannol	7
d) Iechyd a Diogelwch	7
1.2 Rheoli Staff a Gwirfoddolwyr	9
a) Lefelau Staffio	9
b) Darpariaethau Hyfforddi	9
c) Cymhwysedd a Chymwysterau	9
Rhan 2: Rheoli Anifeiliaid	11
a) Cadw Cofnodion	11
b) Gweithdrefn Derbyniadau ac Archwiliadau Milfeddygol	12
c) Ymddygiad Anifeiliaid ac Asesu	14
d) Llety ac Amgylchedd	14
e) Glanhau a Hylendid	16
f) Cwmniaeth	18
g) Bwydo a Dŵr	19
h) Goruchwyliaeth	20
i) Trin a Golchi	20
j) Ymarfer	21
k) Ansawdd Bywyd	21
l) Lefelau Cadw Cywir	22

Rhan 3: Iechyd a chlefydau anifeiliaid	23
a) Clefydau anifeiliaid	23
b) Niwtro a bridio	26
Rhan 4: Adfer a/neu ailgartrefu a/neu ryddhau	27
a) Ewthanasia	27
b) Adfer	28
c) Ailgartrefu	29
d) Meithrin	30
e) Adnabod ac olrhain	31
Rhan 5: Cludo anifeiliaid	32
Atodiadau	
1) Deddfwriaeth sy'n ymwneud ag iechyd a lles anifeiliaid	34
2) Deddfwriaeth sy'n berthnasol i adfer bywyd gwyllt	36
3) Deddfwriaeth nad yw'n ymwneud ag anifeiliaid	42
4) Ffynonellau gwybodaeth ychwanegol	42
5) Enghraifft o bolisi rhyddhau	43
6) Enghraifft o bolisi ewthanasia	44
7) Enghraifft o bolisi ailgartrefu	45
8) Notifiable diseases	45
9) Codes used within this Code	45

Rhagair

O dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 (“y Ddeddf”), os ydych yn berchen ar anifail neu’n gyfrifol am un, mae dyletswydd gyfreithiol arnoch i gymryd camau rhesymol i sicrhau bod ei anghenion lles yn cael eu diwallu. Mae Sefydliad Lles Anifeiliaid (AWE) yn gyfrifol am yr anifeiliaid sydd yn ei ofal ac felly mae hefyd yn agored i gael ei erlyn.

Mae’r Cod yn egluro’r hyn y mae angen i Sefydliadau Lles Anifeiliaid ei wneud i fodloni safon y gofal y mae’r gyfraith yn gofyn amdano. Ni ddylai AWE achosi unrhyw ddiodefaint diangen i’r anifeiliaid yn ei ofal; gallai hyn fod yn drosedd ddifrifol o dan y Ddeddf. Dylai Sefydliadau Lles Anifeiliaid ofyn i’w milfeddyg am gyngor ar iechyd unrhyw anifeiliaid sydd yn eu gofal. Mae cyngor arbenigol ar les ar gael gan y rhai sy’n astudio ymddygiad anifeiliaid ac eraill a restrir yn Atodiad 4.

Ar gyfer rhagor o ffynonellau gwybodaeth, gan gynnwys Deddf Lles Anifeiliaid 2006, ei rheoliadau a’i chodau, a deddfwriaeth berthnasol arall, gweler yr Atodiadau ar ddiwedd y Cod hwn. Noder bod y ddeddfwriaeth a ddyfynnir yn y Cod a’i Atodiadau yn gywir ar y dyddiad cyhoeddi ond y gallai newid wedi hynny.

Bwriad y Cod Ymarfer yw annog y rhai sy’n gyfrifol am ofalu am anifeiliaid sydd yng ngofal Sefydliadau Lles Anifeiliaid i fabwysiadu’r safonau hwsmonaeth uchaf. Mae’n amlinellu’r fframwaith ar gyfer darparu lefelau gofal rhagorol sydd angen eu dangos hefyd. Dylai’r rhain gael eu cydnabod yn gyffredinol fel y meincnod ar gyfer pob unigolyn a sefydliad sy’n gyfrifol am ofalu am anifeiliaid. Hefyd, mae’r Cod hwn yn darparu amlinellid o’r agweddau gweinyddol gwahanol ar weithredu AWE.

O ystyried bod y rhan fwyaf o anifeiliaid sydd wedi’u derbyn at ddibenion achub ac adfer eisoes yn agored i niwed, rhaid sicrhau mai prif nod unrhyw AWE yw cynnal safonau lles uchel ar gyfer yr anifeiliaid sydd yn ei ofal.

Dechrau Elusen Newydd

Dylai unrhyw sefydliad achub llwyddiannus geisio sicrhau bod ganddo strwythur cyfreithiol priodol. Fodd bynnag, yn achos sefydliadau bach sy’n cael eu sefydlu o’r newydd, cydnabyddir na fydd modd cyflawni hyn ar unwaith bob amser. Mae hyn yn bwysig iawn os yw rhoddion wedi’u derbyn. I’r rhai sy’n ystyried sefydlu elusen achub newydd a fydd yn gofalu am anifeiliaid, mae’r Cod hwn yn dangos yr ymrwymadau a’r cyfrifoldebau gofynnol yn glir. Hefyd, dylid ystyried y pwyntiau canlynol:

- a) a) A oes angen elusen o’r fath? Pa asesiad sydd wedi cael ei gwblhau i sicrhau bod gwir angen? Os oes elusennau lleol neu genedlaethol eisoes yn bodoli, ystyriwch wirfoddoli iddynt neu weithio gyda nhw. Efallai y byddai’n well datblygu perthynas â Sefydliadau Lles Anifeiliaid eraill er mwyn sicrhau eu llwyddiant hirdymor, yn hytrach na dechrau sefydliad newydd.
- b) A oes gan yr Ymddiriedolwyr a enwebwyd a’r staff/gwirfoddolwyr ddigon o arbenigedd, adnoddau a gwybodaeth i allu darparu gofal llawn amser i’r anifeiliaid?
- c) A ellir dod o hyd i ddigon o arian i gynnal yr elusen?

Diffiniad a chyd-destun

Mae'r diffiniad o AWE wedi esblygu dros amser a thrwy fforymau a mentrau gwahanol er mwyn mynd i'r afael â'r heriau a'r materion sy'n wynebu sefydliadau o'r fath. Nod y diffiniad hwn yw adlewyrchu swyddogaeth Sefydliadau Lles Anifeiliaid a darparu ymbarél ar gyfer sector gweithgarwch sy'n gallu bod yn amrywiol ac sy'n cynnwys llawer o rywogaethau. Felly, at ddibenion y Cod hwn, mae AWE yn unrhyw sefydliad sy'n derbyn ac yn gofalu am anifeiliaid sy'n agored i niwed (dros dro, yn barhaol neu'r ddau). Gallai hyn gynnwys sefydliadau y cyfeirir atynt yn gyffredinol fel: cartrefi anifeiliaid, gwarchodfeydd, llochesi, canolfannau ailgartrefu, cartrefi gorffwys, ysbytai anifeiliaid,

canolfannau adfer, canolfannau achub, a chyfleusterau anifeiliaid crwydr (a reolir gan awdurdod lleol neu gontractwr). Gallai swyddogaeth y sefydliadau hyn gynnwys: derbyn anifeiliaid nad yw pobl eu heisiau, ailgartrefu anifeiliaid, cadw anifeiliaid gydol eu bywydau, ymdrin ag anifeiliaid coll, trin (ar raddfa fach neu fawr) anifeiliaid sâl neu anifeiliaid sydd wedi'u hanafu, derbyn anifeiliaid sydd wedi ymddeol, neu adfer anifeiliaid. Ni fyddai'n bosibl creu diffiniad o Sefydliadau Lles Anifeiliaid ar sail nifer yr anifeiliaid sy'n agored i niwed sy'n cael eu derbyn neu gan gyfyngiadau difrifol ar rywogaethau, ond yn hytrach rhaid iddo gael ei ddiffinio yn ôl yr hyn y mae'n ei wneud.

Bydd AWE yn cael ei ddiffinio fel hyn:

Person neu sefydliad sy'n derbyn anifeiliaid sy'n agored i niwed yn rheolaidd, waeth a yw'r anifail yn gydymaith, yn anifail a ffermir, yn anifail gwyllt, yn anifail sy'n cael ei warchod neu'n anifail arall, gyda'r bwriad o'i adfer a naill ai ei ailgartrefu neu ei ryddhau (yn ôl i'r gwyllt), neu ddarparu gofal hirdymor ar ei gyfer.

Deddf Lles Anifeiliaid 2006

Mae adran 9 o'r Ddeddf yn cynnwys manylion am y ddyletswydd gofal sy'n ei gwneud yn ofynnol i bobl sy'n gyfrifol am anifeiliaid gymryd camau rhesymol i sicrhau bod anghenion lles yr anifeiliaid hyn yn cael eu diwallu. Y Pum Angen Lles yw:

(a) ei angen am amgylchedd addas:

Dylid darparu amgylchedd sy'n gydnaws â gofynion y rhywogaeth. Dylai hyn gynnwys cysgod rhag y glaw, gwres ac oerfel fel y bo'n briodol. Dylid darparu swbstradau, clwydi ac amgylcheddau tri dimensiwn addas lle y bo'n briodol gyda mannau i guddio oddi wrth bobl neu anifeiliaid eraill fel y bo'n briodol. Dylid sicrhau cydbwysedd rhwng triniaeth feddygol, hylendid a gofynion biolegol y rhywogaeth, a bydd gofal cychwynnol mewn amgylchedd tebyg i ysbyty yn fwy sylfaenol

fel arfer ac yn rhydd o nodweddion cyfoethogi, tra bod amgylcheddau adfer yn fwy naturiol ac wedi'u cyfoethogi.

(b) ei angen am ddeiet addas:

Mae bwyd a dŵr yn anghenion sylfaenol. Dylid ystyried y dull o gyflwyno bwyd, amllder bwydo a'r cydbwysedd maethol. Dylai bwyd gael ei gyflwyno mewn modd ac amllder sy'n gymesur ag ymddygiad naturiol y rhywogaeth, yn ogystal â'i ofynion maeth, sy'n gallu amrywio yn ôl y tymor a chyfnod bywyd yr anifail.

(c) ei angen i allu arddangos patrymau ymddygiad normal:

Dylid rhoi cyfle i anifeiliaid fynegi'r rhan fwyaf o'u hymddygiad arferol, gan ystyried y canllawiau cyfoethogi a hwsmona cyfredol, gan roi pwyslais ar gynnal a datblygu ymddygiad sy'n briodol ar gyfer ailgartrefu neu ryddhau'r anifail yn y dyfodol.

(d) unrhyw angen sydd ganddo i gael ei letya gydag anifeiliaid eraill, neu ar wahân iddynt:

Bydd yr angen i fod gyda'r un rhywogaeth neu rywogaeth arall yn wahanol ar gyfer pob anifail, ac mae angen gwybodaeth arbenigol i fynd i'r afael â hyn. Bydd y broses o ynysu rhai anifeiliaid yn hanfodol i'w hadfer, tra bod eraill yn dangos ychydig o gynnydd, neu ddim cynnydd o gwbl, heb gwmni anifeiliaid eraill. Dylid ystyried ffactorau eraill yn ofalus, gan gynnwys profiadau'r gorffennol, oedran ac iechyd cyffredinol, ymysg pethau eraill.

(e) ei angen i gael ei ddiogelu rhag poen, dioddefaint, anaf ac afiechyd:

Bydd angen ystyried amrywiaeth gymhleth o ffactorau er mwyn sicrhau nad yw anifail – sydd eisoes yn agored i niwed ac yn dioddef o bosibl – yn dioddef ymhellach gydol y broses o'i achub, ei adfer a'i ailgartrefu/rhyddhau. Mae polisi milfeddygol cynhwysfawr yn hanfodol ar gyfer y rhan fwyaf o agweddau ar yr angen lles hwn.

Rhan 1: Llywodraethu a Rheoli

1.1 Llywodraethu

Rhagwelir mai llywodraethu cadarn a strwythur rheoli staff/gwirfoddolwyr ategol yw'r ffactor unigol pwysicaf wrth sicrhau llwyddiant a chynaliadwyedd hirdymor AWE. Am y rheswm hwn, mae llywodraethu a safonau lles anifeiliaid sylfaenol yn gwbl gyd-ddibynnol ac ni ellir eu hystyried ar wahân. Dylai corff llywodraethu unrhyw AWE geisio recriwtio a chadw grŵp o ymddiriedolwyr ymroddedig sydd â'r sgiliau, yr arbenigedd a'r amser i'w neilltuo i'r sefydliad.

Yn gyffredinol, mae Sefydliadau Lles Anifeiliaid yn sefydliadau 'dielw', yn elusennau bach, yn sefydliadau elusennol corfforedig neu'n elusennau cofrestredig. Dylai'r rhai sy'n gweithredu sefydliad elusennol, neu sy'n gobeithio gwneud hynny, edrych am wybodaeth yn www.charitycommission.gov.uk I'r rhai nad ydynt yn ceisio cael statws elusennol, mae canllawiau ar lywodraethu a'r holl oblygiadau sydd ynghlwm wrth hynny ar gael yn www.wcva.wales. Yn ogystal, mae gwybodaeth am arferion cyfreithiol ac arferion gorau yn ymwneud â chodi arian ar gael yn www.smallcharities.org.uk a www.institute-of-fundraising.org.uk.

Mae'n rhaid i elusennau cofrestredig fod â 'dogfen lywodraethu'; hwn yw cyfansoddiad yr elusen a gallai fod yn Weithred Ymddiriedaeth, yn Femorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu cwmni cyfyngedig drwy warant, neu'n rheolau cymdeithas aelodaeth. Bydd yn rhaid i'r Comisiwn Elusennau ar gyfer Cymru a Lloegr gymeradwyo'r rhain, fel y bo'n briodol. Mae cyngor ar y fformat priodol ar gyfer dogfennau llywodraethu ar gael yn www.gov.uk/guidance/how-to-write-your-charitys-governing-document.

Waeth a yw'r AWE yn elusen ai peidio, dylai fod â strwythur cyfreithiol priodol, a allai fod yn gwmni cyfyngedig drwy warant, yn gymdeithas anghorfforedig neu'n Ymddiriedolaeth. Hefyd, dylai strwythur cyfreithiol ffurfiol gynnwys cyfansoddiad, statws elusennol ac Ymddiriedolwyr

penodedig. Mae'r Comisiwn Elusennau'n datgan y dylai Ymddiriedolwyr weithredu mewn ffordd 'Ddidwyll', sy'n cael ei diffinio fel bwriad neu gymhellion didwyll, gonest; ceisio gwneud y peth iawn, er budd yr elusen. Unwaith y bydd statws cyfreithiol wedi'i sicrhau, mae cyfrifon llawn, wedi'u harchwilio neu eu hardystio'n briodol, yn dod yn ofyniad cyfreithiol a rhaid cyflwyno cyfrifon o'r fath yn gywir.

Mae'n rhaid i Ymddiriedolwyr a Rheolwyr sefydliadau y mae'r Cod Ymarfer hwn yn cyfeirio atynt fod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Mae'n rhaid i sefydliadau gydymffurfio â llawer o ddeddfwriaeth sy'n amrywio o ddeddfwriaeth lechyd a Diogelwch a Chyflogaeth i ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig â rhywogaethau mwy penodol megis deddfau lles anifeiliaid (gweler Atodiadau 1 i 3). Mae'n bwysig nodi bod y Ddeddf Lles Anifeiliaid yn cydnabod troseddau gan gyrff corfforaethol. Byddai AWE yn perthyn i'r diffiniad o gorff corfforaethol. Os yw trosedd yn cael ei chanfod ac erlyniad yn mynd rhagddo, gall fod yn berthnasol i unigolyn a/neu unrhyw gyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog tebyg yn y corff corfforaethol, neu unrhyw berson yr honnir ei fod wedi gweithredu mewn unrhyw swydd a fydd yn agored i gael ei erlyn a'i gosbi yn unol â hynny lle profir euogrydd yn y llys.

Mae gan lawer o Sefydliadau Lles Anifeiliaid strwythurau llywodraethu sy'n cwmpasu ardal ddaearyddol ehangach y tu hwnt i Gymru, h.y. sefydliadau Prydain neu'r DU sy'n gweithio mewn mwy nag un wlad. Yn yr achosion hyn, gan fod polisi lles anifeiliaid wedi'i ddatganoli, disgwylir i unrhyw AWE sydd â phresenoldeb yng Nghymru gydymffurfio â'r Cod hwn yn ogystal â'r ddeddfwriaeth lles anifeiliaid (a ddeddfwriaeth berthnasol arall) a all fod yn wahanol yng Nghymru o'i gymharu â gwledydd eraill y DU.

Dylai Sefydliadau Lles Anifeiliaid amlygu tryloywder yn eu gweithrediadau a'u prosesau gwneud penderfyniadau. Dylid datblygu a chytuno ar bolisiau clir cyn eu cyflwyno yn y safle a/neu ar y wefan berthnasol.

a) Polisiau

Mae'n rhaid i Sefydliadau Lles Anifeiliaid feddu ar bolisiau sydd ar gael yn hawdd yn y meysydd canlynol:

Llywodraethu a rheoli staff/gwirfoddolwyr:

1. Dogfen Lywodraethu" sy'n cynnwys y wybodaeth ganlynol:
 - a) ei ddibenion elusennol ('amcanion')
 - b) beth mae'n gallu ei wneud i gyflawni ei ddibenion ('pwerau'), fel benthyca ariany
 - c) pwy sy'n rheoli'r sefydliad/pwy sy'n atebol ('ymddiriedolwyr', 'cyfarwyddwr', 'aelodau o'r pwyllgor' ac ati) a phwy sy'n gallu bod yn aelod
 - d) sut y bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal a sut y bydd ymddiriedolwyr yn cael eu penodi
 - e) unrhyw reolau yn ymwneud â thalu ymddiriedolwyr, buddsoddiadau a dal tir
 - f) a yw'r ymddiriedolwyr yn gallu newid y ddogfen lywodraethu, gan gynnwys ei amcanion elusennol ('darpariaethau diwygio')
 - g) sut i gau'r elusen/sefydliad ('darpariaethau diddymu')).
2. Cadw cofnodion ac archwilio cofnodion o'r fath - mae hyn yn cynnwys yr holl gofnodion yn ymwneud â chyllid, meddyginiaethau, staff, gwirfoddolwyr, cefnogwyr a rhoddwyr, ac ati. Ar gyfer cofnodion ychwanegol yn ymwneud â'r anifeiliaid yn y AWE, gweler yr adran berthnasol isod.
3. Cyfle Cyfartal - mae'n rhaid i'r AWE fodloni'r gofynion Cyfle Cyfartal a darparu'r lefel statudol o ofal staff a gwirfoddolwyr. Dylai'r holl staff a gwirfoddolwyr gael eu trin yn deg, waeth beth yw eu rhyw, eu hoedran, eu tarddiad hiliol, eu hargyhoeddiad crefyddol, eu cyfeiriadedd rhywiol neu eu hanabledd.
4. Iechyd a Diogelwch – dylai hyn gynnwys darpariaethau ar gyfer staff, gwirfoddolwyr ac ymwelwyr. Mae polisi a rhaglen rheoli risg,

gan gynnwys cofrestr a chofnod o asesiadau rheolaidd, yn hanfodol hefyd.

5. Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu – mae hyn yn cynnwys polisiau ar ddefnyddio'r rhyngwrwyd, e-bost, y cyfryngau cymdeithasol a thrwyddedau meddalwedd ac ati.
6. Lefelau staffio – dylai Sefydliadau Lles Anifeiliaid fod â pherson dynodedig a chyfrifol ar gael bob amser pan fo anifeiliaid ar y safle. Dylent gael hyfforddiant a chael mynediad i ddeunyddiau cymorth cyntaf anifeiliaid.
7. Polisiau adnoddau dynol a pholisiau cyflogaeth cyffredinol.
8. Diogelu – gan gynnwys gwirfoddolwyr, staff a rhyngweithio â'r cyhoedd.
9. Chwythu'r chwiban.

Iechyd a Lles Anifeiliaid:

1. Meini Prawf Mynediad - dylid amlinellu'r rhain yn nogfennau llywodraethu'r AWE. Dylai'r meini prawf ar gyfer mynediad gynnwys sut mae'r AWE yn rhoi ei egwyddorion llywodraethu ar waith mewn ffordd ymarferol o ddydd i ddydd. Dylai'r meini prawf ar gyfer mynediad fod yn gysylltiedig â gallu'r AWE i ddiwallu anghenion penodol a chyffredinol pob anifail, waeth a yw'r anifeiliaid dan ei ofal dros dro neu'n barhaol. Dylai'r meini prawf ystyried adnoddau'r AWE (cyllid, pobl a chyfleusterau) ac anghenion newidiol yr anifail e.e. yn ystod cwarantyn neu mewn achosion o ddibyniaeth uchel ar filfeddygon.
2. Polisi a chytundebau milfeddygol – dylid penodi practis milfeddygol ar gyfer y sefydliad, gan arddangos manylion cyswllt a rhif cyswllt brys 24 awr y practis mewn man amlwg.
3. Ansawdd bywyd – gweler Rhan 2 (k).
4. Ewthanasia (gweler Atodiad 6 am enghraifft mewn sefydliadau bywyd gwyllt).

5. Perchenogaeth – mae'n hanfodol bod sefydliadau'n deall y sylfaen gyfreithiol sy'n berthnasol i dderbyn anifeiliaid (e.e. trosglwyddo perchenogaeth, lletya ar ran corff neu awdurdod arall; neu ofal dros dro ar ran perchennog). Dylid nodi hyn yn eglur iawn bob amser i'r person sy'n trosglwyddo perchenogaeth cyn y cyfnewid.
6. Ailgartrefu – dylai'r sefydliad ymrwymo i safon uchel o arferion Ailgartrefu cyfrifol (gweler Atodiad 7 ar gyfer enghraifft).
7. Rhyddhau (gweler Atodiad 5 ar gyfer enghraifft).
8. Prynu – ni anogir achub anifeiliaid trwy eu prynu, gan fod hyn yn annog ac yn gwobrwo'r rhai a allai fod yn gyfrifol am esgeulustod.
9. Adnoddau – mae'n annerbyniol i sefydliad dderbyn mwy o anifeiliaid na'r nifer y gallant ddarparu gofal a sylw priodol ar eu cyfer ar sail yr adnoddau sydd ar gael.
10. Mewnforio anifeiliaid – ni anogir hyn o gwbl chwaith. Os credir bod rhaid mewnfario anifail, mae'n rhaid cydnabod y ddeddfwriaeth lem sy'n rheoli mewnfario anifeiliaid.
11. Mynediad cyhoeddus/arddangos – [Arddangosfeydd Anifeiliaid Teithiol¹].

b) Deddfwriaeth

I weld rhestr o ddeddfwriaeth gysylltiedig yn ymwneud â lles y mae'n rhaid i bob AWE gydymffurfio â hi, gweler Atodiadau 1-3. Ni ddylai'r rhestr hon gael ei hystyried yn gyflawn, ac mae rheolwyr/yddiriedolwyr AWE yn gyfrifol am fod yn gyfarwydd â datblygiadau a gofynion deddfwriaeth newydd yn ymwneud â lles ac iechyd anifeiliaid ar gyfer yr holl rywogaethau sy'n derbyn gofal trwy'r sefydliad. Rhaid i Sefydliadau Lles Anifeiliaid gydymffurfio'n llawn

â deddfwriaeth sy'n ymwneud â sut y mae anifeiliaid yn cael eu trin. Mae hyn yn amodol ar ddeddfwriaeth genedlaethol a lleol briodol. Mae'n ymarfer da sicrhau bod lles anifeiliaid yn hollbwysig i weithgareddau unrhyw sefydliad.

Gofynnwyd i bob Sefydliad Lles Anifeiliaid nodi i Orchymyn Rhywogaethau Goresgynnol Estron (Gorfodi a Chaniatáu) 2019 ddod i rym ar 1/12/19. Mae'n rhoi ar waith y gofynion yn Rheoliad Rhywogaethau Estron yr UE (1143/2014), gan gynnwys disgrifio'r cosbau am dramgwyddo'r cyfyngiadau yn y Rheoliad, amddiffyniadau a darpariaethau eraill sy'n gysylltiedig â gorfodi. Ceir rhagor o wybodaeth am y Gorchymyn yn Atodiad 2. Cadwch hyn mewn cof wrth ddarllen y Cod Ymarfer hwn.

Trwyddedu

Mewn rhai amgylchiadau, bydd mathau penodol o drwyddedau'n berthnasol i AWE waeth a yw'r gweithgareddau hynny'n brif ddiben y sefydliad ai peidio. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i:

1. Reoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014.
2. Deddf Sefydliadau Lletya Anifeiliaid 1963.
3. Deddf Sefydliadau Marchogaeth 1964.
4. Deddf Trwyddedu Sŵau 1981.
5. Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Arddangosfeydd Anifeiliaid) (Cymru) 2020).
6. Gorchymyn Rhywogaethau Goresgynnol Estron (Gorfodi a Chaniatáu) 2019.

Yn ogystal â'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â chadw a gofalu am anifeiliaid, sydd wedi'i chynnwys yn Atodiadau 1-3, mae'n rhaid i Sefydliadau Lles Anifeiliaid ystyried deddfau a rheoliadau eraill. Mae'r Cod hwn yn cyfeirio at lawer o'r rhain, ond cyfrifoldeb y AWE yw bod yn ymwybodol o'r holl ddeddfwriaeth berthnasol.

¹ Ym mis Rhagfyr 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bwriad i reoleiddio Arddangosfeydd Anifeiliaid Teithiol. Ar ôl ei throi'n ddeddf, bydd angen diweddarau'r adran hon i gynnwys y rheoliadau newydd y byddai angen cydymffurfio â nhw.

c) Rheolaeth Ariannol

Cyfrifon

Dylai cyfrifon banc fod yn enw'r sefydliad a dylai'r cyfrifon gael eu cadw a'u cyflwyno lle bo hynny'n berthnasol.

Dylai Ymddiriedolwyr/Rheolwyr sicrhau bod cofnodion ariannol y AWE yn cael eu harchwilio'n rheolaidd.

Codi Arian

Dylai Sefydliadau Lles Anifeiliaid godi arian mewn ffordd foesegol a chyfrifol, yn unol â'r rheolau a nodir gan y Comisiwn Elusennau a'r Rheoleiddiwr Codi Arian. Dylai pob AWE (gyda neu heb statws elusennol) gydymffurfio â'r Cod Ymarfer Codi Arian².

Cynllunio

Dylai pob AWE fod â strategaeth fusnes sy'n nodi'r cyllid a'r incwm/gwariant a ragwelir ar gyfer y sefydliad yn y tymor byr a'r tymor canolig (mae cynlluniau hirdymor yn ddymunol hefyd). Dylai pob cynllun o'r fath gynnwys gwybodaeth wrth gefn ar gyfer sefyllfa lle mae'r sefydliad yn rhoi'r gorau i weithredu. Dylai cynlluniau o'r fath gynnwys cyllid priodol i dalu costau cau sefydliad, gan gynnwys cynlluniau ar gyfer gofal parhaus o'r anifeiliaid a phecynnau diswyddo ar gyfer staff.

d) Iechyd a Diogelwch

Mae'n rhaid i Sefydliadau Lles Anifeiliaid gydymffurfio â deddfwriaeth lechyd a Diogelwch bresennol. Mae cyngor a chanllawiau ar lechyd a Diogelwch ar gael gan adran lechyd yr Amgylchedd yr awdurdod lleol neu gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE).

Gall Sefydliadau Lles Anifeiliaid gael eu cynnal yn gyfan gwbl gan wirfoddolwyr neu weithwyr cyflogedig, neu gan gyfuniad o'r ddau. Yn gyffredinol, mae deddfwriaeth lechyd a Diogelwch yn berthnasol i weithwyr cyflogedig a'r rhai y mae gweithgareddau sefydliad yn effeithio arnynt, sy'n cynnwys gwirfoddolwyr ond sydd hefyd yn cynnwys ymwelwyr â'r Sefydliad yn ogystal ag aelodau'r cyhoedd. Felly, mae'n bwysig bod â pholisi lechyd a Diogelwch ysgrifenedig, a gweithdrefnau a chanllawiau priodol, i leihau'r perygl o achosi niwed i iechyd a diogelwch pobl eraill.

Rhaid sicrhau bod staff, gwirfoddolwyr ac ymwelwyr â'r safle yn ymwybodol o bolisi iechyd a diogelwch y sefydliad. Mae pob parti yn gyfrifol am sicrhau amgylchedd diogel trwy gydymffurfio â gweithdrefnau iechyd a diogelwch ac arferion gwaith diogel. Yn ogystal â sicrhau bod yr holl gyfarpar gwaith yn addas, yn addas i'r diben ac wedi'i gynnal a'i gadw'n dda, mae'n rhaid i sefydliadau ddefnyddio systemau gwaith diogel a sicrhau bod pawb yn eu dilyn.

Mae'n rhaid ystyried cyflwyno mesurau sydd wedi'u cynllunio i ddiogelu staff, gwirfoddolwyr a'r cyhoedd rhag anafiadau a chlefydau gan anifeiliaid sydd yng ngofal y sefydliad (gweler adran clefydau milheintiol y Cod hwn). Gall anaf gael ei achosi gan yr amgylchedd ffisegol neu'r anifeiliaid sy'n cael eu cadw gan y AWE – naill ai o ganlyniad i ddamwain neu oherwydd bod yr anifail yn ymosod. Os yw anifail y gwyddys ei fod yn ymosodol yn anafu aelod o staff, gwirfoddolwr neu aelod o'r cyhoedd, bydd y sefydliad perthnasol mewn perygl difrifol o dorri deddfwriaeth lechyd a Diogelwch a/neu gallai fod yn destun achos llys sifil.

Rheoli Risg

Dylai fod gan sefydliadau bolisi Rheoli Risg ysgrifenedig, a ddylai gynnwys Asesiadau Risg perthnasol a rheolaidd (bydd rhai ohonynt

² www.fundraisingregulator.org.uk/code-of-fundraising-practice/code-of-fundraising-practice-v1-4-310717-docx/

yn ofynion statudol). Dylid cadw cofnodion o asesiadau o'r fath mewn cofrestr. Yn ogystal â'r cyfrifoldebau a nodir yn y polisi lechyd a Diogelwch, dylid ystyried y canlyniadau sy'n deillio, er enghraifft, o ladrad, fandaliaeth a chlefydau, yn ogystal â materion fel colli incwm neu eiddo.

Gweithredu mewn Argyfwng a Chynllunio Wrth Gefn

Mae'n rhaid cymryd camau priodol i amddiffyn staff, gwirfoddolwyr ac anifeiliaid mewn argyfwng, er enghraifft mewn achosion o dân neu lifogydd. Lle y bo'n ymarferol, rhaid i berson cyfrifol fod ar y safle neu'n agos at y safle bob amser er mwyn rhoi rhybudd a chymryd camau angenrheidiol eraill.

Mae'n rhaid paratoi cynllun gwacáu'r adeilad mewn argyfwng ar gyfer staff, gwirfoddolwyr ac anifeiliaid sy'n seiliedig ar gyngor ac wedi'i gymeradwyo gan Swyddog Atal Tân. Hefyd, mae'n rhaid gofyn am gyngor gan Swyddog Atal Tân mewn perthynas â lleoliad a gweithrediad priodol gosodiadau trydan a gwresogj. Mae'n rhaid darparu cyfarpar diffodd tân yn unol â chyngor y Swyddog Diogelwch Tân, ac mae'n rhaid sicrhau bod yr holl osodiadau a chyfarpar trydanol yn cael eu cynnal a'u cadw mewn cyflwr diogel. Dylid arddangos gweithdrefnau ysgrifenedig a'u lledaenu fel y bo'n briodol fel bod yr holl staff, gwirfoddolwyr ac ymwelwyr yn ymwybodol o'r camau i'w cymryd. Rhaid ymarfer y gweithdrefnau gwacáu yn rheolaidd a chadw cofnodion o'r arferion hyn.

Dylid paratoi cynllun wrth gefn ar gyfer cartrefu nifer fawr o anifeiliaid os nad oes modd defnyddio'r safle [neu os oes angen gwacáu'r safle ar fyr rybudd). Dylid ystyried costau a) llety dros dro o'r fath a b) y cyllid sydd ei angen i ailadeiladu'r safle. Hefyd, dylid ystyried datblygu partneriaethau â Sefydliadau Lles Anifeiliaid eraill a allai gynorthwyo gyda lletya anifeiliaid mewn sefyllfaoedd o argyfwng.

Dylid penodi swyddog cymorth cyntaf cymwysedig, ac mae'n rhaid sicrhau bod pecyn cymorth cyntaf ar gael.

Dylid gweithredu camau iechyd a diogelwch priodol eraill ar gyfer staff mewn perthynas â chlefydau, er enghraifft tystiolaeth barhaus o frechiad rhag TB, brechiad tetanws a brechiad rhag y cynddaredd lle y bo'n briodol. Dylid gofyn am gyngor meddygon teulu unigol yn ôl yr angen.

Yswiriant

Dylai'r sefydliad fod wedi'i yswirio'n llawn ar gyfer atebolrwydd gweithwyr cyflogedig ac atebolrwydd cyhoeddus, a dylai fod ag yswiriant atebolrwydd ymddiriedolwyr. Mae angen sicrhau yswiriant digonol ar gyfer gweithgareddau'r AWE, ac ar gyfer unrhyw atebolrwydd mewn perthynas ag unrhyw golled, difrod neu anaf i'r anifeiliaid neu'r staff, neu y gellir eu priodoli iddynt. Dylid arddangos pob tystysgrif yswiriant berthnasol i'r cyhoedd fel tystiolaeth bod polisi yswiriant berthnasol ar waith.

Mae angen cymryd gofal arbennig i leihau'r perygl o anaf gan anifeiliaid mewn sefydliadau lles anifeiliaid. Gall atebolrwydd am anafiadau a achosir gan anifeiliaid i weithwyr cyflogedig, gwirfoddolwyr neu aelodau o'r cyhoedd fod yn fater cymhleth, ac mae'n rhaid i sefydliadau sicrhau bod ganddynt yswiriant atebolrwydd cyhoeddus digonol ac, os ydynt yn cyflogi staff, yswiriant atebolrwydd cyflogwr (rhaid ymestyn hyn i gynnwys gwirfoddolwyr os oes angen).

Gall atebolrwydd ddeillio o gamau cyfreithiol gan drydydd parti neu weithiwr cyflogedig, sy'n gallu cyflwyno achos yn erbyn y Ganolfan fel corff corfforaethol (waeth beth yw ei statws cyfreithiol), yn erbyn y perchnogion yn bersonol neu, os yw'n elusen, yn erbyn yr Ymddiriedolwyr. Felly, mae'n bwysig gofyn am gyngor arbenigol gan weithiwr yswiriant proffesiynol er mwyn trefnu'r polisi yswiriant mwyaf priodol.

1.2 Rheoli Staff a Gwirfoddolwyr

Mae pob cyfeiriad at 'staff' isod yn cynnwys gwirfoddolwyr.

Gall cymorth a ddarperir gan wirfoddolwyr fod yn werthfawr ac yn effeithiol, ond mae cyflogi staff llawn amser sy'n derbyn cyflog yn debygol o sicrhau'r oruchwyliaeth a'r dilyniant gofal angenrheidiol. Fel sy'n wir am staff sy'n derbyn cyflog, bydd cytundeb ysgrifenedig ffurfiol rhwng y sefydliad a'r gwirfoddolwyr yn nodi cyfrifoldebau'r ddwy ochr yn glir, ac yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer datrys camddealltwriaeth neu anghydfod a allai godi.

a) Lefelau staffio

Bydd cyfanswm y staff gofal anifeiliaid a gyflogir, a'r nifer sydd ar ddyletswydd ar unrhyw adeg yn ystod oriau gwaith yn y AWE yn sicrhau bod modd rhoi digon o sylw i'r holl anifeiliaid, gan gynnwys darparu ar gyfer pob agwedd ar eu gofal ac unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol.

Dylid darparu niferoedd digonol o staff cymwys bob amser er mwyn sicrhau bod sylw priodol, rheolaidd ac amserol yn cael ei roi i bob anifail sy'n cael ei gadw. Wrth gyfrifo gofynion a rotâu staff, mae angen ystyried absenoldeb oherwydd hyfforddiant, gwyliau, salwch, mamolaeth ac amgylchiadau na ellir eu rhagweld. Hefyd, mae'n bwysig bod y sefydliad yn cadw digon o arian i gyflawni ei gyfrifoldebau cyfreithiol fel cyflogwr.

Mae cost staff sy'n derbyn cyflog yn gyfrifoldeb cytundebol, ac mae'n debygol mai hwn fydd y gost fwyaf i'r sefydliad. Mae angen adnoddau i gefnogi gwirfoddolwyr hefyd. Felly, mae'n hollbwysig bod digon o arian ar gael bob amser i gyflawni pob ymrwymiad fel cyflogwr.

b) Darpariaethau Hyfforddi

Dylid darparu polisi hyfforddi ysgrifenedig a chofnodi'r holl hyfforddiant.

Dylai Sefydliadau Lles Anifeiliaid geisio cynnal rhaglenni hyfforddi priodol er mwyn sicrhau bod eu staff yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am bob agwedd ar ofal anifeiliaid, hylendid, lles, hyfforddiant a materion yn ymwneud ag ymddygiad. Dylai'r holl staff gael eu hyfforddi ym mholisiau a gweithdrefnau gweithredu safonol y sefydliad, a dylid sicrhau bob amser bod goruchwyliaeth a hyfforddiant cynefino ar gael ar gyfer staff newydd, yn enwedig y rhai nad oes ganddynt brofiad o drin anifeiliaid.

Dylid dangos bod hyfforddiant staff systematig wedi'i gynnal, a dylid llunio amserlen ar gyfer hyfforddiant diweddar, yn enwedig ym meysydd iechyd a diogelwch a thrin anifeiliaid â llaw. Dylai pob aelod o staff fod â chynllun datblygu personol ar gyfer ei ddatblygiad parhaus. Dylai'r holl staff fod yn gymwys ac wedi'u hyfforddi'n briodol i adnabod lles ac arwyddion o salwch, anaf ac afiechyd, yn yr anifeiliaid sydd dan eu gofal. Gan ddiybnnu ar swyddogaeth y AWE, gallai'r pynciau gynnwys: trin anifeiliaid; ecoleg; hwsmonaeth anifeiliaid; lles anifeiliaid; bioddiogelwch a hylendid; gweinyddu meddyginiaeth; gofalu am anifeiliaid newydd-anedig; iechyd a diogelwch a chymorth cyntaf; gweithredu mewn argyfwng; ewthanasia mewn argyfwng; samplu sylfaenol ar gyfer monitro iechyd a gwneud diagnosis; meini prawf a dulliau rhyddhau anifeiliaid; dulliau addysgola and techniques; educational techniques.

c) Cymhwysedd a Chymwysterau

Dylai personau sy'n gyfrifol am ddiogelwch a gofal anifeiliaid amlygu cymhwysedd mewn gofal, hyfforddiant a rheolaeth anifeiliaid naill ai drwy gymwysterau proffesiynol cydnabyddedig a/neu drwy brofiad ymarferol helaeth. Mae'n rhaid i Sefydliadau Lles Anifeiliaid sy'n ymwneud ag ymchwiliadau sy'n deillio o honiadau o greulondeb neu

esgeulustod yn ymwneud ag anifeiliaid gan drydydd parti ddeall y fframwaith cyfreithiol sy'n sylfaen i ymchwilio i bryderon lles, ynghyd â'r gweithdrefnau cywir ar gyfer casglu a chofnodi tystiolaeth. Mae hyn yn cynnwys gwneud unrhyw waith sy'n ymwneud â darparu cyngor, neu symud anifeiliaid o sefyllfaoedd o greulondeb neu esgeulustod a gofalu amdany'n nhw wedyn; mae'n berthnasol i bob achos, waeth a yw'r sefydliad yn gorfodi deddfwriaeth lles anifeiliaid neu'n gweithredu ar y cyd â chyrff gorfodi fel Awdurdodau Lleol a'r Heddlu.

Dylid cadw rhestr o'r holl staff a gwirfoddolwyr sydd wedi'u hawdurdodi i weithio gyda'r anifeiliaid (gan gynnwys unrhyw gyfyngiadau sy'n berthnasol i rywogaethau penodol), ynghyd â llinellau cyfrifoldeb, lefelau arbenigedd, hyfforddiant, cymwysterau a'r dyletswyddau y mae ganddynt hyfforddiant a gallu cyfreithiol i'w cyflawni.

Rhan 2: Rheoli Anifeiliaid

a) Cadw Cofnodion

Dylid cadw cofnod sy'n cynnwys disgrifiad o'r holl anifeiliaid sy'n cael eu derbyn i'r sefydliad, gan nodi'r dyddiad cyrraedd a gadael, ac enw a chyfeiriad y perchennog newydd (a/neu enw a chyfeiriad y perchennog presennol os caiff ei ddychwelyd, neu'r AWE newydd y trosglwyddir yr anifail iddo). Dylid cadw cofnodion o driniaeth filfeddygol hefyd. Dylid sicrhau bod cofnodion ar gael i'w harchwilio gan unigolyn awdurdodedig bob amser. Mae angen i'r holl gofnodion sy'n cael eu cadw gydymffurfio â'r Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

Mae cadw cofnodion cywir yn hanfodol i sicrhau bod modd olrhain anifeiliaid, perchennogaeth, statws iechyd, defnydd o feddyginiaethau, clefydau, genedigaeth a marwolaeth pob anifail. Mae cadw cofnodion yn orfodol ar gyfer rhywogaethau Atodlen 4 o dan Ddeddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981, ond fe'i hystyrir yn hanfodol hefyd i ddarparu trywydd archwilio cyflawn ar gyfer pob anifail, a darparu prawf o darddiad ar gyfer bywyd gwylt (i'w ryddhau'n ddiweddarach er enghraifft) a pherchnogaeth yn benodol³. O ganlyniad, dylai cofnodion gynnwys tystiolaeth ddogfennol o berchnogaeth gyfredol, gan gynnwys trosglwyddo perchennogaeth, er enghraifft i'r AWE.

Dylid cadw cofnodion ar gyfer pob anifail unigol⁴. Os yw anifeiliaid yn cael eu cadw mewn grwpiau, dylid sicrhau bod modd adnabod pob anifail yn unigol. Yn ddelfrydol, dylid cadw'r cofnodion hyn ar gronfa ddata gyfrifiadurol (a'u hategu'n briodol), er hwylustod a chyflymder cyfeirio, neu fel arall mewn system ffeilio bapur neu gerdyn.

Dylid diweddarau cofnodion bob dydd (neu'n amlach yn ôl y gofyn) gan aelodau staff dynodedig.

Dylid cadw cofnodion anifeiliaid am gyfnod o dair blynedd o leiaf a sicrhau eu bod ar gael i'w harchwilio bob amser gan unrhyw berson awdurdodedig. Dylid cadw cofnodion o driniaeth filfeddygol ac asesiadau nad ydynt yn filfeddygol hefyd. Dylid darparu ar gyfer gwaith archifo hirdymor mewn fformat diogel.

Dylid cofnodi'r wybodaeth ganlynol ar gyfer pob anifail:

- Adnabod anifeiliaid unigol. Ar gyfer llawer o rywogaethau, mae yna ofyniad cyfreithiol i adnabod pob anifail gan ddefnyddio dulliau penodol. Gall hyn gynnwys rhifau/rhewfrandio microsglodyn/cylch coes/tag clust neu basbort neu fanylion tatw/marciau eraill i adnabod yr anifail, yn ogystal â chyfeirnod cronfa ddata AWE unigryw sydd wedi'i neilltuo i'r anifail.
- Disgrifiad o'r anifail, gan gynnwys:
 - rhywogaeth
 - brid os yw'n hysbysn
 - oedran neu amcangyfrif o'r oedran os yn anhysbys
 - lliw, marciau ac unrhyw nodweddion gwahaniaethol
 - gwryw neu fenyw
 - wedi'u niwro neu heb eu niwro.
- Lleoliad presennol yr anifail yn y AWE (e.e. rhif yr adeilad a'r cwt).
- Dyddiad derbyn i'r AWE.
- Dyddiad rhyddhau neu ailgartrefu.

³ Mae yna ofyniad cyfreithiol hefyd i gofrestru rhai adar ysglyfaethus sydd mewn gofal - Adran 7 o Ddeddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad, sy'n berthnasol i adar Atodlen 4.

⁴ Efallai y bydd amgylchiadau prin pan fydd yn rhaid i'r AWE gadw cofnodion grŵp, er enghraifft ar gyfer haid o adar. Dylid darparu tystiolaeth o gyfiawnhad dros gofnodion grŵp.

- Hanes yr achos gan gynnwys man tarddiad (ym mhle a sut y cafwyd yr anifail), perchnogion blaenorol, unrhyw fanylion perthnasol am gaffael. O ran yr anifeiliaid o dan ddarpariaethau Gorchymyn Rhywogaethau Goresgynnol Estron (Gorfodi a Chaniatáu) 2019 yr ystyrir eu bod yn anifeiliaid anwes, dylai'r hanes gynnwys tystiolaeth y cafodd perchennog yr anifail cyn i'r rhywogaeth gael ei chynnwys yn rhestr Rhywogaethau Goresgynnol Estron yr UE.
- Unrhyw broblemau iechyd neu hanes milfeddygol cyfredol neu flaenorol hysbys.
- Rheswm dros dderbyn i'r AWE.
- Manylion wedi'u dilysu o'r perchennog blaenorol/y person sydd wedi dod â'r anifail i'r sefydliad.
- Prawf wedi'i ddogfennu o unrhyw drosglwyddiad perchennogaeth neu gyfrifoldeb dros dro neu barhaol yn achos bywyd gwyllt.
- Manylion y milfeddyg/practis sydd wedi'i neilltuo i'r anifail (os nad y practis a enwebir gan y AWE).
- Pwysau a Sgôr Cyflwr y Corff adeg derbyn yr anifail ac ar adegau rheolaidd fel y bo'n briodol:
 - Anghenion penodol i gynnwys: Maeth: cofnod o fath/maint/amlder y bwyd sydd ei angen;
 - Unrhyw anghenion deietegol penodol;
 - Unrhyw anghenion penodol o ran yr amgylchedd, cwmnïaeth, arwahanrwydd a meddyginiaeth reolaidd.
- Iechyd:
 - Cofnod o unrhyw arsylwadau clinigol neu bamedrau afreolaidd, er enghraifft cysondeb carthion, ymddygiad yfed, cosi neu besychu;
 - Manylion unrhyw archwiliadau neu ymyriadau milfeddygol;
 - Cofnod o driniaethau milfeddygol gan gynnwys meddyginiaethau a roddwyd;
 - Cofnod o unrhyw ganlyniadau profion diagnostig.
- Cofnod o asesiad ymddygiadol llawn yr anifail ac arsylwadau ymddygiadol parhaus.
- Cofnod o'r cynllun hyfforddi, adfer ac addasu ymddygiad.
- Y dyddiad a'r rheswm dros ewthanasia neu farwolaeth, gan gynnwys cofnod o unrhyw ganfyddiadau post mortem.
- Cofnodion sydd eu hangen o bosibl fel rhan o unrhyw rwymedigaethau cyfreithiol ar gyfer anifeiliaid a allai fod yn destun ymchwiliad ffurfiol. Gall rhai rhywogaethau fod yn destun deddfwriaeth ychwanegol, gan gynnwys gofynion cofnodi, er enghraifft anifeiliaid gwyllt ac anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd.

b) Gweithdrefn Dderbyniadau ac Archwiliadau Milfeddygol

- Ar y diwrnod pan fo'r anifail yn cyrraedd y AWE, neu cyn ei fod yn cyrraedd, dylai aelod o staff cymwys (sydd â chymhwyster addas os oes modd) wneud asesiad o addasrwydd yr anifail i aros yn y sefydliad.
- Dylai'r asesiad o addasrwydd gynnwys adolygu hanes yr anifail, ei anghenion ar hyn o bryd ac yn y dyfodol a'r canlyniadau arfaethedig ar gyfer yr anifail yn y pen draw, a dylid defnyddio'r wybodaeth hon i benderfynu a yw'r anifail yn addas i natur y AWE, ac ai'r Sefydliad yw'r lle gorau i ddiwallu anghenion lles yr anifail.
- Dylid cadw anifeiliaid newydd ar wahân i anifeiliaid eraill nes bod yr asesiad yn dangos nad oes ganddynt unrhyw glefyd, yn unol â'r hyn a nodir yng nghynllun iechyd y AWE sydd wedi'i gytuno (gweler yr adran fiolddiogelwch yn Rhan 3).
- Dylai'r asesiad o addasrwydd gynnwys archwiliad corfforol sy'n arsylwi ar iechyd, lles ac ymddygiad yr anifail, gan chwilio am arwyddion o anaf neu glefyd, ac ymddygiad gofidus neu bryderus. Mae angen cwblhau'r archwiliadau canlynol:

- Arsylwi ar ymddygiad ac iaith y corff, o bell i ddechrau, ac yna drwy drin yr anifail os yw'n ddiogel neu'n briodol gwneud hynny.
 - Asesu arwyddion o iechyd neu afiechyd da. Er enghraifft, a oes gan yr anifail unrhyw arwyddion o glwyfau neu anafiadau allanol/clefyd ar y croen/rhedlif o'r trwyn/anadlu'n afreolaidd, anadlu'n gyflym, peswch neu disian/chwydu neu ddolur rhydd/ymddangosiad afreolaidd y clustiau neu'r llygaid/cloffni neu goesau neu draed afreolaidd?
 - Os oes unrhyw arwyddion o glefyd neu drallod yn amlwg, dylid gwneud yr anifail yn gyfforddus mewn amgylchedd tawel, a dylid ei asesu gan filfeddyg cyn gynted â phosibl.
 - Mesur pwysau a sgôr cyflwr corff yr anifail a'u cofnodi.
 - Pan fydd anifeiliaid yn cael eu canfod neu eu derbyn am y tro cyntaf dylid eu harchwilio'n drylwyr ar gyfer math o broses adnabod sy'n gysylltiedig â'r rhywogaeth berthnasol. Mewn rhai rhywogaethau, mae gofyniad cyfreithiol ar gyfer proses adnabod benodol. Mae'n rhaid i'r AWE fod yn gyfarwydd â'r gofynion hyn, a dylai feddu ar y wybodaeth a'r cyfarpar (neu allu cael gafael arno) sydd ei angen i archwilio pob anifail a'i adnabod. Ar gyfer llawer o rywogaethau yn y DU, bydd y dull adnabod hwn yn seiliedig ar ficrosglodyn sydd wedi'i osod mewn lle penodol ar yr anifail. Dylid sganio am ficrosglodyn trwy ddefnyddio sganiwr sy'n cydymffurfio ag ISO. Mae sganio sawl gwaith yn cynyddu'r posibilrwydd o ddod o hyd i ficrosglodyn. Os yw microsglodyn yn cael ei ganfod, mae'n rhaid gwneud ymdrech resymol i olrhain perchennog neu geidwad cofrestredig unrhyw anifail coll. Yn achos rhai rhywogaethau, yn sgil y cynnydd mewn teithio rhyngwladol, dylai hyn gynnwys cyfeiriad at gronfeydd data ar gyfer anifeiliaid sy'n tarddu o'r tu allan i'r DU. Dylai polisi'r AWE gynnwys gweithdrefnau ar gyfer darganfod microsglodion nad ydynt yn dod o'r DU. Yn unol â'r arferion gorau, os oes microsglodyn neu ddull adnabod arall yn cael ei ganfod, ac nad yw'r anifail wedi'i gofrestru gyda'r person a ddaeth ag ef i mewn, mae'n rhaid ceisio cysylltu â'r ceidwad cofrestredig. Mewn rhai amgylchiadau, mae'n rhaid dilyn gweithdrefn gyfreithiol pan ganfyddir dull adnabod parhaol, ac mae'n rhaid i'r AWE ddilyn hyn, gan gydweithio â'r awdurdodau perthnasol. Mae'n rhaid i'r AWE fod yn gyfarwydd â'r gofynion adrodd.
- Os tybir bod yr anifail yn addas ar gyfer ymuno â'r AWE, yna dylid neilltuo rhif cronfa ddata unigryw ar ei gyfer a dylid cofnodi'r holl wybodaeth yn yr adran uchod (cadw cofnodion) ar gronfa ddata'r AWE.
 - Os nad yw'r anifail yn addas i ymuno â'r AWE, dylai'r person priodol wneud penderfyniad ynghylch a ddylai gael:
 - ei ewthaneiddio gan filfeddyg ar sail lles;
 - ei gludo i glinig milfeddygol i'w archwilio a'i drin;
 - ei symud i AWE mwy priodol neu i drefniant maethu cartref.
 - Dylai pawb sy'n ymdrin â'r anifail a dderbyniwyd o'r newydd gymryd camau biaddiogelwch priodol i atal croeshalogi â staff ac anifeiliaid eraill.
 - Dylid cynnal gwaith samplu a phrofion ar gyfer statws iechyd a chlefydau yn unol â gweithdrefn gwarantyn a sefydlwyd ar y cyd â'r milfeddyg a enwebwyd gan y AWE.
 - Dylid gwneud cofnod ffotograffig o'r anifail ar y pwynt mynediad.
 - Dylid asesu anifeiliaid newydd sy'n ymuno â'r AWE i ganfod eu hanghenion o fewn y AWE.

- Dylai anifeiliaid newydd sy'n ymuno â'r AWE gael archwiliad gan filfeddyg cyn gynted â phosibl ar ôl iddynt gyrraedd.
- Pan fydd anifeiliaid newydd yn dod i mewn i'r AWE, dylid pennu aelod penodol o staff i fod yn gyfrifol am oruchwylio'r broses gyflwyno a gofal, er mwyn sicrhau parhad gofal.

c) Ymddygiad anifeiliaid ac asesu

Anifeiliaid Domestig

Dylid asesu anifeiliaid wrth eu derbyn, ac ar sail barhaus, gan unigolyn sydd â chymwysterau priodol neu unigolion cymwys addas. Mae hyn yn sicrhau bod rhaglenni ymddygiad yn cael eu gwerthuso a'u gweithredu'n gadarn er mwyn gwella cyfleoedd i ailgartrefu a sicrhau bod anifeiliaid yn cael eu cefnogi'n gywir yn ystod eu cyfnod yn y sefydliad. Dylid ystyried nifer o ffactorau wrth asesu anifeiliaid domestig gan gynnwys: anian yr anifail; ei oed; ei iechyd; sut mae'n adweithio tuag at bobl ac anifeiliaid eraill; ei ymateb i synau ac arogleuon o fewn yr amgylchedd; a'i adwaith i gyswllt corfforol/trin a golchi.

Anifeiliaid Gwyllt

Mae angen i ymddygiad anifail a fagwyd yn y gwyllt fod yn gymesur ar gyfer y rhywogaeth honno, gan gynnwys y gallu i adnabod ei rywogaeth ei hun e.e. dewis cymar a'r gallu i adnabod adnoddau bwyd naturiol heb ddibynnu ar borthiant atodol ar ôl ei ryddhau. Rhaid iddo arddangos greddf ofn naturiol/ymateb i straen megis ymwybyddiaeth o ysglyfaethwr (sy'n cynnwys pobl). Mae anifeiliaid sydd wedi'u cam-imbrintio h.y. anifeiliaid sydd wedi colli eu hofn o bobl a/neu nad ydynt yn gallu adnabod eu rhywogaeth eu hunain, neu anifeiliaid sydd wedi cynefino, yn atal adferiad llwyddiannus ac yn berygl i'w hunain ac i'r cyhoedd. Mae asesiad ymddygiadol yn dechrau wrth dderbyn yr anifail er mwyn arbed anifeiliaid

sydd wedi'u cam-imbrintio rhag ymuno â rhaglen adfer. Mae asesu anifeiliaid newydd-anedig a dibynnol yn ystod y broses fagu mewn caethiwed yn parhau hyd nes y gwneir y penderfyniad i ryddhau ond mae'n bosibl y bydd angen ôl-ryddhau hefyd er mwyn asesu'r broses adfer.

d) Llety ac Amgylchedd

Dylai llety, boed dan do mewn lloc pwrpasol neu yn yr awyr agored mewn lloc neu gae wedi ei amgáu, ystyried gofynion y rhywogaeth a bod yn addas i ddiwallu anghenion ffisiolegol a seicolegol yr anifail. Mae arfer gorau yn cael ei osod mewn codau ymarfer penodol ar gyfer gwahanol rywogaethau a rhaid i'r AWE sicrhau bod eu trefniadau llety ac amgylchedd yn dilyn y rhain i ddiwallu holl anghenion yr anifeiliaid bob amser. Dylai llety fod â digon o le bob amser i ganiatáu ar gyfer ymddygiadau naturiol.

Llety

Mae'r gofynion o ran llety yn wahanol ar gyfer pob rhywogaeth, ond ym mhob achos, rhaid eu cadw mewn cyflwr glân, addas i'r diben ac yn ddiogel bob amser. Rhaid glanhau pob cyfleuster llety (a lle bo'n briodol) eu diheintio gyda diheintydd diogel i'r anifail⁵ rhwng anifeiliaid, a'u gwirio am lendid a diogelwch cyn cyflwyno pob anifail newydd i'r llety hwnnw.

Sarn/Lloriau

Rhaid darparu deunydd llawr neu sarn glân addas, sy'n ddigonol i'r anifail fod yn rhydd o anghysur ac yn annog ymddygiad naturiol megis gorwedd, cuddio, neu orffwys oddi wrth olau. Dylai pob deunydd llawr/sarn naill ai fod yn dafladwy (e.e. gwellt, pren, papur) neu'n olchadwy mewn peiriant ar olchiad poeth (e.e. blancedi ci) neu'n ddiheintiadwy (e.e. matiau rwber a choncrid) er mwyn caniatáu arferion hylendid a bioddiogelwch da.

⁵ Mae Defra yn rhestru diheintyddion ar gyfer anifeiliaid fferm.

Tymheredd

Rhaid cadw pob llety o fewn y terfyn tymheredd cywir ar gyfer y rhywogaethau dan do. Gall hyn olygu bod angen defnyddio gwres a/neu ffaniau. Rhaid i anifeiliaid allu symud oddi wrth ffynonellau o anghysur neu anaf thermol posibl e.e. ffynonellau gwres. Ar gyfer rhywogaethau sy'n sensitif i dymheredd, dylai tymheredd yn y llety neu'r ardal lle cedwir yr anifail gael ei fonitro'n ofalus a dylid cadw cofnod o hynny.

Goleuadau

Mae'n rhaid i bob llety gael golau naturiol priodol yn ystod oriau golau dydd, ac eithrio rhywogaethau lle mae'r gofynion goleuo penodol yn wahanol, a rhaid darparu ar gyfer yr anghenion penodol. Dylai fod gan bob llety gyflenwad trydan a golau artiffisial digonol ar gael i ryngweithio â'r anifeiliaid dan do y tu allan i oriau golau dydd.

Awyru a Lleithder

Rhaid i'r llety fodloni'r gofynion unigol ar gyfer awyru a lleithder ar gyfer pob rhywogaeth.

Llociau

Rhaid i bob lloc neu uned letya fod yn addas ar gyfer y rhywogaeth a'r diben arfaethedig e.e. cwarantin neu fyw yn gyffredinol; sicrhau bod anghenion pob anifail unigol yn cael eu diwallu a lle bod yr anghenion hynny'n cael eu cyfyngu e.e. ymddygiad neu ddeiet normal yn ystod cwarantin neu driniaeth gan filfeddyg; nad yw hynny ond yn digwydd yn unol â chyngor milfeddyg ac am y cyfnod byrraf sy'n angenrheidiol i sicrhau iechyd a lles yr unigolyn. Ceir manylion penodol yn y Cod Ymarfer ar rywogaethau lle mae'r rhain yn bodoli ond mae angen ystyried y canlynol wrth sefydlu a chynnal AWE:

1. Adeiladau

- Ardaloedd ar gyfer lletya anifeiliaid/ ynysu/storio porthiant a pharatoi/gofal milfeddygol/tacluso a golchi/ystafell staff a bwyta/cyfleusterau ymolchi a thai bach/ardal gyflwyno anifeiliaid i'r cyhoedd/derbynfa .
- Trydan/dŵr/carthffosiaeth/system wresogi/awyru neu aerdymheru.
- Deunyddiau, gwynwch, diheintio, diogelwch anifeiliaid.
- Diogelwch, systemau larwm (tân a diogelwch), botwm panig, mesurau atal dianc.

2. Llociau dan do (gan gynnwys cynwysyddion)

- Mathau o stablau/cysgodfannau/cytiau cŵn/cewyll/milodfeydd/ardaloedd aml-anifail.
- Dyluniad a chynllun y lloc.
- Golau naturiol ac artiffisial.
- Mathau o ffenestri/deunydd/diogelwch .
- Mathau o ddrysau/defnyddiau/diogelwch .
- Rheoli tymheredd (ar gyfer gwresogi ac oeri).
- Dimensiynau/maint y lloc.
- Defnyddiau wal/nenfwd ac arwynebau.
- Deunyddiau llawr.
- Rhaniadau mewol, llwyfannau neu glwydi o fewn lloc.
- Draenio a glanhau.
- Darpariaeth dŵr.
- Darpariaeth bwydo.
- Deunyddiau sarn.
- Cyfoethogi'r amgylchedd.
- Agosrwydd gweledol a chlywadwy at, neu arwahanrwydd oddi wrth, anifeiliaid eraill o'r un rhywogaeth.
- Agosrwydd at, neu arwahanrwydd oddi wrth, staff.
- Gwahanu oddi wrth rywogaethau eraill os yw'n briodol.
- Rheoli sŵn.

3. Llociau awyr agored

- Mathau rhedfeydd dan do-awyr agored/ardaloedd ymarfer corff ar wahân/ padogau/adardai/pyllau.
- Dimensiynau a rhaniadau mewnol.
- Mathau o gatiâu/drysau, nifer, safle, deunyddiau, diogelwch .
- Darparu cysgod.
- Mathau o ffensys, defnyddiau ac uchder.
- Deunydd toi ac uchder os oes angen.
- Deunyddiau arwyneb llawr.
- Draenio a glanhau.
- Darpariaeth dŵr.
- Darpariaeth bwydo.
- Cyfoethogi'r amgylchedd, agosrwydd gweledol, clywadwy ac arogleuol at, neu arwahanrwydd oddi wrth, anifeiliaid eraill o'r un rhywogaeth.
- Agosrwydd at, neu arwahanrwydd oddi wrth, staff.
- Gwahanu oddi wrth rywogaethau eraill os yw'n briodol.
- Ystyried bioddiogelwch mewn perthynas â mynediad gan fywyd gwyllt lleol.

e) Glanhau a Hylendid

Dylai'r holl unedau, coridorau, manau cyffredin, ceginau ac ati gael eu cadw'n lân ac yn rhydd o grynoadau o faw a llwch a dylid eu cadw mewn cyflwr a fydd yn lleihau'r risg o ledaenu haint.

Dylid glanhau pob uned sydd wedi'i meddiannu bob dydd oni bai bod gofynion yr unigolyn neu'r rhywogaeth yn pennu rhaglen ofal arall e.e. bywyd gwyllt.

Ar gyfer rhywogaethau domestig, dylid tynnu eitemau symudol i'w glanhau o leiaf unwaith yr wythnos a chyn lletya pob anifail newydd. Dylid tynnu pob deunydd ysgarthol a budr o bob man a ddefnyddir gan yr anifeiliaid o leiaf bob dydd ac yn amlach os oes angen, yn ogystal â chynwysyddion bwyd a dŵr.

Er bod cynnal amgylchedd hylan yn bwysig, dylid hefyd ystyried cysur a lles meddyliol yr anifeiliaid. Mae angen i arferion glanhau a hwsmonaeth sicrhau bod y llety'n diwallu anghenion yr anifeiliaid ac ystyried y trallod seicolegol a allai gael ei achosi gan, er enghraifft, symud arogleuon cyfarwydd a sarn yn ddyddiol drwy ddefnyddio llawer o ddŵr a diheintydd sy'n ddiogel i anifeiliaid – wedi'i wanhau a'u defnyddio'n gywir yn unol â'r rhywogaeth. Gall aroglau cemegol cryf effeithio'n andwyol ar anifeiliaid, fel y gall amgylchedd sy'n gyson wlyb a llaith. Mae defnyddio dull glanhau dirybudd a arweinir gan ddiheintyddion yn bodloni gofynion lles a hylendid unwaith y bydd yr anifail wedi mynd drwy'r cyfnod cwarantîn. Os amheuir bod anifail yn cario clefyd heintus, bydd angen ei lanhau a'i ddiheintio'n fwy trylwyr.

Dylid cadw pob ardal â sarn yn lân a sych a'i storio'n ddiogel, a dylai anifeiliaid allu mynd i ardal sych wrth i'w llety gael ei lanhau. Rhaid i anifeiliaid gael eu symud yn ystod glanhau pwysedd uchel neu lanhau stêm neu ddulliau glanhau eraill sy'n debygol o achosi braw neu straen.

Rhaid glanhau pob uned yn drylwyr, ei diheintio (lle bo'n briodol) a'i sychu pan fydd anifail newydd yn cael llety yno. Dylai hyn fod yn ddigonol i ddiogelu'r meddiannydd newydd rhag clefyd neu baraseitiaid ei ragflaenydd. Os oes clefydau penodol wedi bod yn bresennol, e.e. parfofeirws mewn cŵn, efallai y bydd angen cymryd camau a rhagofalon pellach. Rhaid i bob sarn, dŵr ac offer bwydo gael eu newid a'u diheintio neu eu gwaredu, lle bo hynny'n berthnasol. Dylai'r holl ffitiadau gael eu glanhau (a'u diheintio) yn drwyadl bryd hynny hefyd.

Rhaid i Sefydliadau Lles Anifeiliaid gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol sy'n ymdrin â gwastraff. Rhaid darparu cyfleusterau ar gyfer storio, trin a gwaredu pob dosbarthiad gwastraff yn briodol ac yn enwedig 'gwastraff rheoledig' a gynhyrchir gan y AWE. Mae angen gofal penodol ar wastraff a reolir megis gwastraff

perylus sy'n codi o drin ac ymdrin ag anifeiliaid â chlefydau heintus. Gellir cael canllawiau ar ddeddfwriaeth a rheoliadau gwastraff gan gyrrff rheoleiddio perthnasol fel yr HSE, DEFRA, yr Adran Iechyd a Chyfoeth Naturiol Cymru.

Mae angen rheoli'n ofalus y broses o gasglu, trafod, trin a chael gwared ar garthion a dŵr glanhau a halogwyd gan garthion. Rhaid i sefydliadau gydnabod y ddyletswydd gofal sydd ganddynt tuag at bobl ac asiantaethau allanol fel cwmnïau dŵr preifat a chwmnïau gwastraff sy'n ymwneud â rheolaeth ddiogel o bob math o wastraff a gynhyrchir mewn AWE.

Dylid cymryd camau i leihau'r risg o anifeiliaid gwyllt yn halogi neu'n cymryd bwydydd, sarn neu ddeunyddiau eraill, o fewn y sefydliad. Gall y mesurau hyn gynnwys defnyddio biniau storio wedi'u selio ar gyfer bwydydd, cael gwared ar fwyd sydd heb ei fwyta a sicrhau bod y waliau a'r drysau allanol yn cael eu hadeiladu i sicrhau na all anifeiliaid fel cnofilod gael mynediad.

Rhaid bod yn ofalus gyda threfn lanhau i ddiogelu anifeiliaid rhag gwenwyn diheintio neu anaf, e.e. llosgiadau cawstig i'r croen. Mae diheintyddion ffenolig yn wenwynig i rai rhywogaethau.

Rhaid trin, storio a gwaredu unrhyw gemegion a ddefnyddir yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr. Gellir gweld rhestr o'r diheintyddion a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yma: www.disinfectants.defra.gov.uk/DisinfectantsExternal/Default.aspx?Module=ApprovalsList_SI.

Glendid

Dylid cadw'r adeilad a'r sefydliad ategol, y gegin, y coridorau, rhedfeydd ac ati mewn cyflwr glendid sy'n gydnaws â chadw rheolaeth ar glefydau a chysur anifeiliaid. Dylid tynnu pob

deunydd ysgarthu a budr o leiaf unwaith y dydd neu fel y bo angen ar gyfer y rhywogaeth, o'r holl adrannau byw ac ymarfer corff, a'u gwaredu mewn modd priodol. Dylai lloriau'r adran fyw fod yn lân ac yn sych. Rhaid cymryd gofal i ddiogelu anifeiliaid rhag gwenwyn diheintio sy'n gysylltiedig â threfn lanhau.

Rhaid peidio â chaniatáu cronni hylifau mewn llety ar gyfer rhywogaethau domestig er mwyn atal heintiau.

Offer Bwydo a Storio

Dylid glanhau neu waredu offer bwydo yn foddhaol ar ôl pob pryd bwyd. Dylid darparu man paratoi bwyd, a dylai fod ar wahân i gyfleusterau'r staff. Dylid ei gadw'n lân a'i reoli bob amser er mwyn sicrhau nad oes ffynonellau bwyd ar gael ar gyfer anifeiliaid gwyllt. Dylid darparu cyfleusterau oergell⁶ pan ddefnyddir bwydydd ffres. Dylid cadw cyflenwadau bwyd mewn cynwysyddion wedi'u selio na all anifeiliaid gwyllt eu defnyddio.

Yn achos rhywogaethau dyfrol, dylid monitro paramedrau ansawdd dŵr yn rheolaidd, gan gynnwys lefelau amonia, nitrid, nitrad a PH.

f) Cwmnïaeth

Mae rhai anifeiliaid yn rhywogaethau cymdeithasol ac mae ganddynt awydd cynhenid i fod gydag anifeiliaid tebyg. Mae arnynt angen, ac maent yn gwerthfawrogi, cwmni eu rhywogaeth eu hunain (a gallai hynny o bosibl olygu angen i'w trosglwyddo i gyfleuster arall sydd ag anifail/anifeiliaid o'r un rhywogaeth). Felly, rhaid ystyried a yw'n briodol eu cadw gyda neu ar wahân i anifeiliaid eraill ar sail dros dro neu hirdymor.

⁶ Mae hyn yn cynnwys rhewgelloedd, oherwydd, er enghraifft, mae ar rai rhywogaethau angen pysgod nad ydynt bob amser yn eu tymor, a hefyd rhaid i gywion wedi'u rhewi (a bwydydd eraill) diwrnod oed gael eu rhewi ar gyfer adar ysglyfaethus.

Mae cyfoethogi⁷ amgylchedd byw lle mae anifeiliaid yn lletya yn bwysig iawn er mwyn sicrhau bod eu hanghenion meddyliol ac ymddygiadol yn cael eu diwallu. Mae hyn yn arbennig o bwysig os yw'r anifeiliaid yn debygol o dreulio cyfnodau hir yn y AWE neu yn yr amgylchedd maethu. Bydd angen mwy o gyfleoedd ymarfer corff ar breswylwyr tymor hwy o ganlyniad.

Rhaid darparu dulliau cyfoethogi amgen ar gyfer anifeiliaid sy'n cael eu lletya mewn unigedd cymdeithasol. Rhaid i'r cyfoethogi fod yn ystyrion i'r rhywogaeth a'r unigolyn, a rhaid i'r AWE gofio y gallai mathau o gyfoethogi ar gyfer un rhywogaeth beri gofid i rywogaeth arall.

Cysylltiad â Phobl

Yn gyffredinol, ni ddylid gorfodi anifeiliaid i ryngweithio â phobl, a rhaid bod ganddynt y cyfleuster i osgoi pobl os dymunant, h.y. lle i guddio neu fan gorffwys fertigol uchel, neu dim cyswllt â phobl ar gyfer bywyd gwyllt. Fodd bynnag, mae cymdeithasoli â phobl yn hanfodol ar gyfer rhai rhywogaethau, ac felly dylid neilltuo amser ar gyfer cyswllt priodol â staff a gwirfoddolwyr.

Dylai anifeiliaid unigol gael eu trin a'u golchi pan fydd angen a dylid cymryd camau i sicrhau nad oes pla parasitig ar anifeiliaid a bod eu cotiau yn rhydd o gedennau. Bydd trin a golchi'n rheolaidd, o'u cyflwyno'n raddol ac mewn ffordd gadarnhaol, hefyd yn galluogi'r anifeiliaid i gynefino â chael eu trafod gan bobl pan fo hynny'n angenrheidiol ac yn ddymunol ar gyfer y rhywogaeth a'r unigolyn hwnnw.

Cysylltiad ag Anifeiliaid Eraill

Dylid cynghori perchnogion newydd os na all, neu os na ddylai, anifail fyw o gwmpas rhywogaethau eraill (neu anifeiliaid eraill o'i rywogaeth ei hun) ac ni ddylid lleoli unrhyw

anifail i fyw gydag anifeiliaid eraill os nad yw'n barod neu'n abl i wneud hynny'n ddiogel.

Fel egwyddor sylfaenol, ni ddylai AWE fodoli er mwyn bridio anifeiliaid. Ni ddylid cartrefu neu gymysgu anifeiliaid o wahanol rywiau heb eu niwro gyda'i gilydd oni bai ei bod yn sefyllfa anarferol iawn, h.y. bod y AWE hefyd yn sw trwyddedig ac yn weithgar mewn rhaglen fridio sy'n angenrheidiol er mwyn diogelu rhywogaeth neu frid/math.

Amgylchedd Bywyd Gwyllt a Chwmnïaeth

- Dylai llety ystyried cynefin naturiol y rhywogaeth a cheisio diwallu anghenion ffisiolegol a seicolegol yr anifail.
- Gan fod bylchau sylweddol yn y wybodaeth am lawer o rywogaethau ynglŷn â'u hwsmonaeth a'u gofal, nid yw'n cael ei ystyried yn arfer da i gymysgu rhywogaethau mewn canolfannau adfer bywyd gwyllt.
- Os nad yw canolfan yn gallu darparu llety sy'n diwallu'r anghenion hynny ar gyfer anifail penodol, yna ni ddylai dderbyn rhywogaethau o'r fath, neu dylai ddarparu llety brys yn unig a threfnu cludiant i gyfleuster mwy addas cyn gynted ag y bo modd.
- Dylai tymheredd, awyru, golau a lefelau sŵn ystafelloedd ysbyty, corllannau a llociau fod yn addas ar gyfer cysur a lles y rhywogaeth arbennig bob amser. Yn benodol:
 - Dylid ystyried anghenion arbennig anifeiliaid beichiog a rhai newydd-anedig.
 - Dylid caniatáu i anifeiliaid sy'n cyrraedd o'r newydd arfer yn llawn â'u hamgylchedd newydd. Bydd y rhan fwyaf o anifeiliaid yn cael eu cadw ar wahân ar y dechrau ar gyfer monitro a thriniaeth,

⁷ It has been noted by Animal Welfare Network Wales ('AWNW') members that enrichment may need further explanation and also embedding in other sections of the Code. This is work the AWWN is willing to do at a later point if that is helpful.

a bydd llawer o achosion o anifeiliaid, yn enwedig anifeiliaid tiriogaethol mewn oed, yn cael eu cartrefu'n unigol drwy gydol eu cyfnod o gaethiwed. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd symud o ardaloedd ynysu cychwynnol, i lociau mewn ysbyty ac yn y pen draw i lociau mwy, fod yn broses raddol.

- Mae angen i danciau ar gyfer rhywogaethau dyfrol⁸ gael eu hocsigeneiddio'n ddigonol yn ôl y nifer a gedwir ym mhob pwll, a dylid eu gwresogi neu eu hoeri yn ôl anghenion y rhywogaeth. Dylai paramedrau amgylcheddol (e.e. halwynedd, ansawdd dŵr, clorin a/neu gynnwys osôn) fod yn addas ar gyfer y rhywogaeth.
- Dylai llety dan do amddiffyn rhag eithafion golau haul, gwres, drafftiau ac oerfel, a dylent ddarparu lleithder priodol.
- Dylai llety tu allan gynnig amddiffyniad rhag tywydd eithafol.
- Dylid cynnal cylchoedd o olau dydd/nos naturiol, gyda chyfle i osgoi golau fel y bo angen. Dylid defnyddio goleuadau naturiol heb eu hidlo, yn hytrach na rhai trydan, lle bynnag y bo'n bosibl, i ddarparu sbectrwm uwchfioled a dwyster priodol ar gyfer datblygiad ac ymddygiad normal. Dylai goleuadau artiffisial fod o ddwyster priodol, dosbarthiad sbectrol ac amllder ymasiad fflachio e.e. ffitiadau golau amledd uchel.

g) Bwydo a Dŵr

Rhaid darparu deiet digonol a chytbwys o ran maeth i bob anifail, sy'n addas ar gyfer y rhywogaeth dan sylw ac sy'n gywir ar gyfer eu hiechyd, eu gweithgaredd a'u cyfnod yn eu cylch bywyd. Dylai cyfanswm, amllder, cyflenwad a math y bwyd gael ei bennu gan yr hyn sy'n briodol i anghenion ymddygiadol a maethol yr unigolyn. Mae'n rhaid i ddŵr glân, yfadwy (addas i'w yfed gan bobl) fod ar gael i anifeiliaid bob amser a'i newid yn rheolaidd o leiaf unwaith y dydd.

Bydd gan rai rhywogaethau a rhai unigolion anghenion deietegol a phorthiant penodol ac amrywiol iawn a dylai'r AWE sicrhau eu bod yn wybodus ac yn gymwys i ddarparu'r deiet a'r drefn fwydo gywir ar gyfer y rhywogaethau a'r unigolion hynny; a'u bod yn gallu cydnabod llwyddiant neu fethiant eu rhaglen fwydo. Dylid ceisio cyngor gan filfeddyg neu berson arall sydd â chymwysterau addas ar sut i reoli anifeiliaid gydag anghenion deietegol ansafonol.

Mae'r cyngor canlynol yn berthnasol i rywogaethau domestig a fferm yn bennaf ond dylid cyfieithu'r egwyddorion sylfaenol ar gyfer unrhyw rywogaeth wyllt neu rywogaeth egsotig sy'n dod i ofal AWE.

Os oes anifeiliaid yn cael eu bwydo gyda'i gilydd, dylid cymryd gofal i sicrhau bod yr holl anifeiliaid yn derbyn bwyd digonol ac nad oes unrhyw anifail yn cael mwy neu lai o fwyd nag sydd ei angen. Mewn ardaloedd cymunedol, dylai fod o leiaf un bowlen fwydo a dŵr ar gyfer pob anifail, ac eithrio ar gyfer rhywogaethau penodol o anifeiliaid fferm y gellir eu bwydo/rhoi dŵr iddynt drwy gyfleusterau bwydo neu yfed cymunedol, megis cafnau.

Dylai bod modd glanhau a diheintio cynwysyddion bwydo, fel arfer ar ôl pob pryd bwyd, a dylid gwaredu bwyd heb ei fwyta'n

⁸ Mae gan bysgod addurnol ofynion hidlo hefyd. Mae clorin yn wenwynig i bysgod a rhaid ei waredu a dylid 'aeddffedu' tanciau cyn ychwanegu pysgod.

ofalus. Dylid glanhau cynwysyddion yfed o leiaf unwaith y dydd. Gellir defnyddio a gwaredu cynwysyddion bwyd untro fel y bo'n briodol. Dylid glanhau neu waredu offer bwydo mewn modd boddhaol ar ôl pob pryd bwyd.

Dylid darparu man paratoi bwyd a dylai fod ar wahân i gyfleusterau staff a gwirfoddolwyr a llety i anifeiliaid. Dylid ei gadw'n lân bob amser. Dylid cadw cyflenwadau swmpus o fwyd mewn cynwysyddion nad oes modd i anifeiliaid gael mynediad iddynt, a dylid darparu cyfleusterau oergell pan ddefnyddir bwydydd ffres. Mae'n bwysig nodi ei bod yn anghyfreithlon bwydo sborion cegin i anifeiliaid fferm oni bai eu bod yn dod o gegin hollol fegan.

Bywyd Gwyllt

- Gall anifeiliaid newydd-anedig ac amddifad fod yn anodd eu magu oherwydd niferoedd cynyddol tymhorol a chyfnodau bwydo aml. Dylai pob canolfan osod terfynau capasiti ar gyfer derbyn anifeiliaid newydd-anedig o bob rhywogaeth. Efallai y bydd angen amrywiaeth eang o gynhwysion deietegol i gyflenwi'r rhywogaethau a ragwelir. Mae siartiau ysgrifenedig i sicrhau nad yw cyfnodau bwydo yn cael eu colli yn ddefnyddiol.
- Dylid cymryd gofal i gyfyngu i'r eithaf ar gyswllt dynol ar adegau bwydo i atal cam-imbrintio.
- Dylid ystyried ymddygiad naturiol yr anifeiliaid, yn enwedig agweddau cymdeithasol, wrth gynnig bwyd a diod. Dylai cynwysyddion bwydo ac yfed, o'u defnyddio, fod o ddyluniad priodol a dylid eu gosod fel eu bod yn hygyrch ac ar gael i bob anifail a gedwir mewn lloc. Yn ystod cyfnod diweddarach yr adfer, dylai bwydo fod mor 'naturiol' â phosibl (e.e. bwydo drwy wasgariad) er mwyn annog a datblygu ymddygiad bwydo arferol.
- Dylai cynllun lloc olygu nad yw cyswllt dynol yn gysylltiedig â bwydo.

- Dylai dulliau bwydo fod yn ddiogel ar gyfer anifeiliaid a staff, ac yn briodol yn ôl rhywogaeth.
- Dylai bwyd a diod, a chynwysyddion bwydo ac yfed pan gânt eu defnyddio, gael eu gosod mewn safleoedd sy'n lleihau'r risg o halogi gan anifeiliaid, adar gwyllt, cnofilod neu blâu eraill.

h) Goruchwyliaeth

Tra bod anifeiliaid yn y sefydliad, dylai person cymwys fod ar gael yn agos i'r safle, pryd bynnag y bo hynny'n ymarferol, i archwilio eu hiechyd, eu diogelwch a'u lles, gan ofalu peidio â tharfu arnynt wrth gysgu. Ystyrir cyfnod addas fel dim mwy na 4 awr rhwng 8am a 6pm. Dylid ymweld yn amlach ag anifeiliaid sydd angen goruchwyliaeth filfeddygol.

Tra bod anifeiliaid yn y sefydliad, dylai person cymwys fod ar gael bob amser i wneud penderfyniadau ynghylch eu lles, yn seiliedig ar y dystiolaeth a ddarparwyd. Rhaid ymweld ag anifeiliaid ar adegau addas er mwyn eu hiechyd, eu diogelwch a'u lles. Dylid llunio a chofnodi trefniadau goruchwyllo ar gyfer pob rhywogaeth, math neu, lle y bo'n briodol, grwpiau neu unigolion.

Rhaid gwneud trefniadau arbennig hefyd i roi sylw i anifeiliaid sâl yn ystod y dydd a'r nos fel y bo angen yn ôl eu cynllun gofal milfeddygol unigol.

i) Trin a Golchi

Mae trin a golchi rhai rhywogaethau domestig (e.e. cŵn, cathod a cheffylau) yn rhan o raglen ofal arferol sydd hefyd yn rhan o archwiliad iechyd yr anifail, yn benodol y croen a'r gôt/blew. Mae meithrin perthynas hefyd yn rhoi cyfle i ddarparu cyswllt dynol cadarnhaol.

Os yw'n briodol ar gyfer y rhywogaeth, dylid paratoi pob anifail yn ôl yr angen a chymryd camau i sicrhau nad oes pla parasitig ar anifeiliaid a bod eu cotiau yn rhydd o gedennau/clymau/drain ac ati.

Efallai y bydd angen cneifio rhai rhywogaethau yn ystod cyfnodau penodol o'r flwyddyn. Dylid gwneud trefniadau i sicrhau bod unigolyn cymwys yn cyflawni hyn yn amserol.

Ar gyfer unrhyw anifeiliaid sydd â mynediad i'r awyr agored, dylid cymryd gofal i sicrhau nad yw eu cotiau yn cagio â baw, mwd ac ati.

j) Ymarfer

Rhaid i bob anifail gael cyfle i wneud ymarfer corff bob dydd i efelychu, i'r graddau y mae hynny'n ymarferol, ymarfer corff ac ymddygiad naturiol y rhywogaeth honno. Dylai hyd y cyfnod ymarfer fod yn ddigon hir ac o'r math cywir i fod yn ddigonol ar gyfer cynnal a chadw a chyfle i arddangos ymddygiad normal ar gyfer y rhywogaeth honno.

Yn ogystal ag ystyried y rhywogaeth a'r math o anifail, dylai'r AWE hefyd drefnu ymarfer corff yn unol ag oedran, ffitrwydd a chyflwr iechyd pob anifail. Yn ystod y cyfnodau hyn, fe'ch cynghorir i fonitro'r anifeiliaid am arwyddion o gloffni, afiechyd neu ymddygiad annormal.

Dylid goruchwyllo'r ymarfer os oes angen. Dylid annog staff i ryngweithio â'r anifeiliaid domestig fel y bo'n briodol. Gan fod ymarfer corff yn digwydd yn aml mewn ardaloedd cyffredin, dylai'r AWE fod yn ystyriol a chymryd rhagofalon rhesymol i leihau'r risg o ledaenu haint.

Dylid rhoi cyfle i anifeiliaid gwyllt wneud ymarfer corff yn ystod cyfnod adfer cyn eu rhyddhau (gweler Rhan 4).

k) Ansawdd Bywyd

Cyn derbyn, dylid rhoi ystyriaeth ofalus i les ac ansawdd bywyd yr anifail yn y dyfodol, a gallu'r sefydliad i'w ddarparu.

Yn y rhan fwyaf o achosion, dim ond mewn ysbytai a chanolfannau achub y dylid cadw a thrin anifeiliaid gwyllt lle credir bod siawns dda y byddant yn cael eu hadfer yn llwyddiannus yn ôl i'r gwyllt. Lle disgwylir i anifail beidio â goroesi, neu i aros yn anabl yn barhaol neu fel arall yn analluog i fyw yn y gwyllt, yna dylai'r AWE ystyried ei bod yn anodd iawn diwallu anghenion yr anifail hwnnw a bod angen ystyried ewthanasia fel y dewis mwyaf tebygol o driniaeth.

Ar gyfer anifeiliaid gwyllt sydd wedi'u dadleoli o'u cynefin naturiol, gall effeithiau caethiwo tymor byr, yn enwedig mewn perthynas ag ymddygiad sy'n gysylltiedig â straen ac ymateb ffisiologol, gael effaith negyddol ddifrifol ar iechyd yr anifail dan sylw. Felly, mewn perthynas ag ailsefydlu bywyd gwyllt lle na wyddys llawer am effeithiau hirdymor caethiwed parhaol ar unigolion sydd eisoes yn analluog ac wedi'u heintio, ni ddylid ystyried dewis arall heblaw ewthanasia.

Ar gyfer anifeiliaid dof, dylai'r AWE asesu a all ofalu am anghenion yr anifail ac a yw'r darpariaethau cywir yn eu lle. Dylid ystyried ewthanasia ar sail achos wrth achos, gan ystyried yr anifail unigol. Yn y rhan fwyaf o achosion, ac eithrio cathod mewn oed sy'n byw yn wyllt, dim ond ar ôl archwilio'r broses adfer a chynnal archwiliad llawn a thrylwyr i bennu'r ffeithiau y dylid gwneud y penderfyniad hwn. Ni ddylid ewthaneiddio heblaw dan law milfeddyg, neu o dan ei gyfarwyddyd, gan ddefnyddio dull dyngarol cymeradwy a, lle y bo'n briodol, drwy ddefnyddio tawelyddiad cyn ewthanasia.

1) Lefelau Cadw Cywir

Bydd Sefydliadau Lles Anifeiliaid, fel mater o'u polisi (mewnol) eu hunain, yn pennu'r lefelau gorau ac uchaf o niferoedd anifeiliaid a'r dwysedd (stocio) gorau ar sail anghenion penodol y mathau o anifeiliaid y mae'n fwriad ganddynt eu derbyn i'w gofal. Dylid cyfrifo niferoedd a dwysedd anifeiliaid drwy ystyried adnoddau'r AWE (arian, gofalwyr cymwys, cyfleusterau a llety {amgylchedd}) er mwyn sicrhau y gall y AWE fodloni ei rwymedigaeth barhaus i bob anifail yn ei ofal.

Anogir Sefydliadau Lles Anifeiliaid i wrthod derbyn anifeiliaid a fyddai'n golygu llesteirio ar eu gallu i ofalu'n ddigonol am y nifer hwnnw o anifeiliaid yn barhaus. Mewn amgylchiadau o'r fath, dylai'r sefydliad fod yn barod i weithio gyda chyrrff eraill i ddod o hyd i drefniadau amgen. Rhaid cofio bod dyletswydd gofal gyfreithiol barhaus sy'n pennu cyfrifoldebau ar berchnogion a cheidwaid i sicrhau lefel briodol o ofal am yr holl anifeiliaid sydd yn eu gofal. Dylid ystyried hyn wrth benderfynu a ddylid derbyn anifeiliaid sy'n mynd tu hwnt i'r capasiti arferol.

Mae ffactorau penodol ar gyfer pob rhywogaeth ar gael yn y codau ymarfer perthnasol ond dylent gynnwys:

- Gofynion gofodol priodol unigolion o bob rhywogaeth.
- Lefel y gofal sydd ei angen ar bob unigolyn.
- Yr angen i anifeiliaid o wahanol rywogaethau neu ryw gael eu cadw ar wahân ac allan o olwg/arogl eraill.
- Risg o haint.

Rhan 3: Iechyd a Chlefydau Anifeiliaid

a) Clefydau Anifeiliaid

Gofal milfeddygol

Rhaid i bob diagnosis a thriniaeth o anifeiliaid gael eu gwneud yn unol â Deddf Milfeddygon 1966. Dylai pob sefydliad enwebu un neu ragor o bractisau milfeddygol neu filfeddygon a all roi cyngor ar iechyd a darparu gwasanaethau milfeddygol i'r ystod a'r math o anifeiliaid sy'n ymuno â'r sefydliad ac sy'n byw oddi mewn iddo. Mae Coleg Brenhinol y Milfeddygon yn cadw rhestr o filfeddygon sydd â chymwysterau arbenigol i gynorthwyo AWE sydd angen gwasanaethau milfeddygol ar gyfer, er enghraifft, rhywogaethau eggsotig neu wyllt.

Os bydd AWE yn defnyddio cyfuniad o filfeddygon lleol a gwasanaethau milfeddygol arbenigol, dylid gwneud trefniadau digonol ymlaen llaw i ganiatáu cyswllt a thrafodaeth amserol rhwng pob parti pryd bynnag y bo hynny'n angenrheidiol, ac yn arbennig ar gyfer achosion brys, i sicrhau sylw milfeddygol digonol a pharhaus ar gyfer yr anifeiliaid sydd yng ngofal yr AWE.

Dylai'r AWE sefydlu, dogfennu a gweithredu gweithdrefn ar gyfer sicrhau cyfleusterau a gwasanaethau y tu allan i oriau ar gyfer anifeiliaid sydd angen gofal milfeddygol, a dylai hyn gynnwys manylion cyswllt llawn am gymorth milfeddygol 24 awr y dydd. Am resymau ymarferol, dylid lleoli'r practis milfeddygol o fewn amser teithio rhesymol i'r AWE.

Rhaid i bob cynnyrch milfeddygol gael ei storio, ei ddefnyddio a'i waredu fel sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth taflen ddata cynnyrch a Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH), neu ddeddfwriaeth leol berthnasol.

Dylid darparu cyfleusterau triniaeth filfeddygol sy'n briodol ar gyfer pob rhywogaeth a gedwir gan yr AWE a dylent fod yn gyson ag anghenion lles yr anifeiliaid penodol ac yn briodol ar gyfer yr amrywiaeth o anifeiliaid y mae'r AWE yn bwriadu eu derbyn. Dylid datblygu a chynnal a chadw cyfleusterau gofal milfeddygol ar y cyd â'r darparwydd/darparwyr milfeddygol enwebedig.

Cynllunio Iechyd Anifeiliaid

Dylid cytuno ar gynllun iechyd ysgrifenedig gyda'r darparwr/wyr milfeddygol enwebedig ar gyfer yr AWE. Dylai hyn sicrhau bod y pum angen lles yn cael eu bodloni ar gyfer yr anifeiliaid a gedwir yn yr AWE, a dylent gynnwys manylion yr amgylchedd, ymddygiad, deiet, rheoli paraseitïaidd, brechu a gweithdrefnau arferol eraill. Dylid ategu hyn â chofnodion cywir a chyfredol o'r holl ymyriadau perthnasol.

a) Arolygu Dyddiol

Rhaid cynnal arolygiadau dyddiol trefnus a thrylwyr er mwyn sicrhau iechyd a lles pob anifail. Bydd y rhain yn cynnwys gwirio'r amgylchedd y maent yn cael eu cadw ynddo. Dylai'r anifeiliaid gael eu gwirio bob dydd am arwyddion o afiechyd, clefyd neu newidiadau yn eu hymddangosiad corfforol neu eu hymddygiad.

b) Ewthanasia a Marwolaeth

Mae gan AWE ddyletswydd gofal gyfreithiol i sicrhau nad yw anifeiliaid sydd o dan eu gofal yn dioddef yn ddiangen. Mae ewthanasia yn opsiwn triniaeth hanfodol pan fydd cyflwr ac ymddygiad yr anifail, gyda chymorth barn filfeddygol, yn dangos nad yw bellach yn bosibl sicrhau nad yw anifail yn dioddef.

c) **Atal Clefydau**

Bydd hyn yn cynnwys camau i atal a rheoli ymlediad clefydau heintus a pharaseitiaid ymhlith yr anifeiliaid, staff, gwirfoddolwyr ac ymwelwyr. Dylid rhoi sylw arbennig i'r rhagofalon a gymerir i leihau'r risg o achosion o glefyd yn yr holl ardaloedd cymunedol.

i) Bioggiogelwch:

Dylid rhoi derbyniadau newydd ac anifeiliaid sy'n dangos arwyddion o'r clefyd mewn cyfleuster ynysu dynodedig tra'n aros am asesiad, a dylid cynnal rhaglen fonitro a phrofi wedi'i theilwra cyn iddynt gael eu cartrefu gyda'r anifeiliaid eraill, os yn briodol.

ii) Clefydau hysbysadwy:

Mae'n hysbys bod rhai rhywogaethau gwyllt a domestig yn ffynonellau clefydau pwysig, yn cynnwys rhai sy'n hysbysadwy (gweler Atodiad 8). Rhaid sgrinio'r rhywogaethau hyn am bresenoldeb y clefyd perthnasol ac mae'n rhaid i bob unigolyn sy'n profi'n positif am y clefyd dan sylw ddilyn y protocolau sy'n weithredol ar gyfer y clefyd hwnnw.

iii) Trawsleoli:

Mae Trawsleoli (cyn ac ar ôl achub) yn peri risg gynhenid o glefydau egsotig ac endemig fel ei gilydd.

Dylai AWE sicrhau bod eu harferion yn lleihau'r risg, a glynu wrth brotocolau a chodau ymarfer perthnasol.

iv) Brechu:

Dylai anifeiliaid gael eu brechu, fel y bo'n briodol i'r rhywogaeth, er mwyn eu hamddiffyn rhag clefydau heintus. Dylid datblygu a gweithredu rhaglen wedi'i theilwra i'r rhywogaethau a'r mathau o anifeiliaid sy'n derbyn gofalu gan yr AWE yn dilyn cyngor milfeddygol. Rhaid cadw anifeiliaid sydd wedi'u derbyn heb hanes brechu hysbys,

er enghraifft, cŵn strae, ar wahân i unrhyw anifeiliaid sydd wedi'u brechu a gedwir ar y safle.

v) Rheoli paraseitiaid:

Dylai paraseitiaid mewnol ac allanol gael eu rheoli'n weithredol yn unol â gofynion darparwr milfeddygol yr AWE. Mae ymwrthedd sy'n datblygu i gynhyrchion sydd ar gael yn fygythiad difrifol i iechyd anifeiliaid, a dylai rhaglenni roi pwyslais ar fesurau hwsmonaeth a dulliau rheoli priodol sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Fel gyda'r cynllun iechyd cyffredinol, dylid cytuno ar raglen i reoli paraseitiaid gydag ymgynghorwyr milfeddygol.

vi) Archwiliadau Post-Mortem a Gwaredu Carcasau:

Mae gorfod delio ag anifeiliaid sydd angen ewthanasia neu sydd weithiau'n marw'n annisgwyl yn rhan real a thrist o weithredu AWE. Dylid trin anifeiliaid marw mewn ffordd sy'n lleihau'r risg o drosglwyddo'r haint. Dylai anifeiliaid sy'n marw mewn canolfan neu ar y ffordd iddi, yn enwedig os yw hynny'n digwydd yn annisgwyl, gael eu harchwilio post-mortem yn unol â chyngor milfeddygol. Lle bo'n briodol, dylid mynd â samplau ar gyfer diagnosis neu fonitro iechyd i'w harchwilio mewn labordy. Dylai cyfleusterau digonol fod ar gael naill ai yn y ganolfan neu o fewn pellter rhesymol ar gyfer archwiliad post-mortem o'r holl rywogaethau sydd yno. Fel arfer dylid symud carcasau anifeiliaid yn gyflym ac yn ddiogel. Dylai sefydliadau sy'n gofalu am anifeiliaid fod yn gyfarwydd â gwasanaethau symud a gwaredu carcasau lleol. Mae gwaredu carcasau yn amodol ar gyfyngiadau cyfreithiol.

Bioddiogelwch

- Os bydd unrhyw anifail yn dangos unrhyw arwydd o glefyd a allai fod yn heintus, rhaid gofyn am gyngor milfeddyg ar unwaith a sicrhau bod cyfleusterau ynysu addas ar gael os yw'r cyngor milfeddygol yn cynnwys cadw'r anifail/anifeiliaid heintiedig ar wahân i'r anifeiliaid eraill.
- Rhaid darparu cyfleusterau ynysu digonol ar gyfer anifeiliaid â chlefydau heintus sydd ar wahân i'r rhai ar gyfer derbyniadau newydd. Gall hyn fod ar y safle neu mewn lleoliad arall, fel milfeddygfa leol.
- Dylai staff a gwirfoddolwyr gael eu hyfforddi ar arferion hylendid gan gynnwys nysio rhwystrol, golchi a diheintio dwylo rhwng anifeiliaid, defnyddio dillad amddiffynnol a mesurau addas eraill i atal croes-heintio. Wrth gynnal archwiliadau rheolaidd ar anifeiliaid, dylai'r staff weithio gyda'r anifeiliaid ieuengaf yn gyntaf, a rhyngweithio ag anifeiliaid iach cyn anifeiliaid sâl rhag i'r clefyd ymledu.
- Dylai'r rhaglen a'r cyfleusterau cwarantini gael eu dylunio ar y cyd â darparwr milfeddygol yr AWE. Dylai fod yn effeithiol o ran canfod ac atal lledaeniad y prif glefydau heintus sy'n fygythiad i anifeiliaid a phobl o ganlyniad i weithio gyda'r rhywogaethau o anifeiliaid y bydd yr AWE yn ymwneud â nhw. Dylai'r trefniadau llety a'r cyfleusterau a'r gweithdrefnau hylendid fod yn ddigonol i reoli'r ystod benodol o glefydau y mae'r rhaglen gwarantini yn bwriadu eu hatal. Dylai'r AWE sicrhau bod y cyfleusterau, y gofal a'r ymyriadau yn ystod y cyfnod cwarantini yn gydnaws â bodloni holl anghenion pob anifail cyn belled ag y bo'n bosibl gwneud hynny; a rhaid iddo beidio â pheri i unrhyw anifail ddioddef yn ddiangen. O ran ei natur, gall cwarantini fethu â bodloni rhai o anghenion pob anifail a dim ond ar ôl sicrhau cyngor milfeddygol uniongyrchol yn unig y dylid cyfaddawdu, a dylid ei liniaru cyn belled â phosibl e.e. drwy gyfyngu ar

y cyfnod o unigrwydd sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau amddiffyniad bioddiogelwch effeithiol, a chynnig cyfoethogi o fewn yr amgylchedd.

- Dylai mesurau bioddiogelwch sicrhau gwahanu effeithiol oddi wrth anifeiliaid eraill nad ydynt yn yr un rhaglen ynysu (pob anifail preswyl yn yr AWE ac unrhyw anifeiliaid sydd ar raglen gwarantini gwbl ar wahân).
- Dylid ystyried profion ar gyfer clefydau penodol a'u cynnal yn dilyn cyngor milfeddygol neu pan fo bygythiad penodol y bydd clefyd perthnasol yn peryglu'r AWE.
- Dylid ystyried agosrwydd anifeiliaid i rywogaethau eraill, e.e. osgoi cadw adar dŵr gerllaw dofednod oherwydd y risg o fflw adar.

Milheintiau

Milheintiau yw clefyd y gellir ei drosglwyddo rhwng pobl ac anifeiliaid. Mae enghreifftiau'n cynnwys heintiau bacteriol, feirysol, ffwngaid a phrotosoaid, yn ogystal â llawer o glefydau parasitig eraill. Mae atal trosglwyddo milheintiau yn digwydd drwy arferion hylendid a bioddiogelwch da, yn yr un modd ag yr ydym yn atal clefydau rhag cael eu drosglwyddo o anifeiliaid i anifeiliaid.

Mae achosion cyffredin cysylltiad â milheintiau yn cynnwys:

- Cyswllt croen.
- Anafiadau treiddio e.e. o frathiadau, crafiadau, anafiadau gan nodwyddau ac ati.
- Trosglwyddiad drwy'r aer .
- Cysylltiad â fectorau clefyd e.e. ystlumod, trogod neu fogsitos.
- Llwybr ymgarthol-geneuole.

Mae ffynonellau haint yn cynnwys cysylltiad â chig amrwd, magwrfeydd haint ac anifeiliaid byw neu farw neu ddeunydd ohonynt, megis carthion, wrin, chwyd neu grawn.

Dylai AWE fod â chynllun bioddigolwch ar waith, sy'n cynnwys mesurau i atal trosglwyddo milheintiau a dylai gynnwys:

- Dylai staff dderbyn hyfforddiant ar ba filheintiau sy'n peri risg iddynt a sut i leihau risgiau.
- Dylid nodi risgiau penodol e.e. gallai dod i gysylltiad beri mwy o risg i bobl sy'n feichiog neu sydd â system imiwedd wan.
- Dylid asesu risg milheintiau ar gyfer pob rhywogaeth ac ar gyfer anifeiliaid unigol.
- Dylid gosod anifeiliaid risg uchel ar wahân a'u trin gan aelodau penodol o'r staff yn unig, gan ddefnyddio dulliau nyrsio rhwystrol. Gall hyn gynnwys anifeiliaid sy'n mynd drwy eu cyfnod cwarantîn, anifeiliaid sâl o dan ofal milfeddyg, neu anifeiliaid eraill y mae cysylltiad â nhw.
- Dylai'r staff geisio cyngor meddygol ar gyfer unrhyw salwch, brathiad neu friw ar y croen.
- Ni ddylid caniatáu bwyta ac yfed mewn ardaloedd trin anifeiliaid a llety anifeiliaid.
- Dylid darparu a defnyddio Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) priodol, megis menig, troswisgoedd a masgiau.
- Golchi dwylo yw'r Mesur pwysicaf ar gyfer atal amlygiad i glefyd. Dylid darparu hyfforddiant, a dylai cyfleusterau fod ar gael drwy'r AWE. Dylai arwynebau ac offer halogedig gael eu diheintio ar ôl eu defnyddio, a hynny gyda diheintydd cymeradwy.
- Dylid cael gwared â gwastraff cytiau, gwastraff clinigol a charcasau yn brydlon ac yn y ffordd gywir.

- Dylai sefyllfaoedd risg uchel megis glanhau llety i anifeiliaid sâl, cymryd samplau neu gynnal archwiliadau post-mortem, gael eu nodi a'u rheoli yn unol â hynny.

b) Niwtro a bridio

Fel egwyddor, ni ddylai AWE fodoli i fridio anifeiliaid. Cydnabyddir y gall anifeiliaid beichiog gyrraedd AWE ac y dylai penderfynu ar sail achos unigol ar y cyd â milfeddyg ynghylch a ddylid caniatáu i'r beichiogrwydd barhau. Ni ddylid cadw anifeiliaid heb eu niwtro o oedran bridio gydag anifeiliaid heb eu hysbaddu o'r rhyw arall. Yn unol â chyngor milfeddygol penodol ar sail unigol, dylai'r AWE niwtro anifeiliaid, fel sy'n briodol ar gyfer y rhywogaeth.

Lle na fu'n bosibl niwtro anifail cyn iddo gael ei ailgartrefu, dylid rhoi system ar waith i sicrhau bod yr anifail yn cael ei niwtro. Gallai hyn fod yn drefniant i'r anifail gael ei ddychwelyd i'r sefydliad i gwblhau'r driniaeth neu i wneud trefniant gyda milfeddyg. Os rhoddir taleb i filfeddyg lleol gyflawni'r driniaeth, mae'n bwysig bod system ddilynol gadarn ar waith.

Dylai'r sefydliad geisio hyrwyddo ac annog niwtro, a dylid rhoi cyngor ar y manteision a'r rhesymau dros niwtro i'r perchnogion/ceidwaid newydd.

Rhan 4: Adfer a/neu Ailgartrefu a/neu Ryddhau

a) Ewthanasia

Dylai bob AWE fod â pholisi ysgrifenedig ar ewthanasia sy'n cael ei esbonio i bob aelod o fewn y sefydliad, a'i a'i ddilyn ganddynt.

Gall ewthanasia fod yn ymateb i amgylchiadau lle bydd iechyd a/neu les yn cael eu cyfaddawdu'n ddi-droi'n-ôl ac yn ddifrifol a phan nad yw'n bosibl diwallu anghenion anifail. Fodd bynnag, ni ddylid cymryd unrhyw benderfyniad i ewthaneiddio anifail heb ystyried hynny o ddifrif a dim ond os bernir ei fod yn gwbl angenrheidiol y dylid gwneud hynny.

Dyma'r ffactorau allweddol wrth benderfynu a ddylid ystyried ewthanasia y:

- a) Er mwyn atal poen neu ddiodefaint (gan gynnwys poen neu ddiodefaint meddyliol ac emosiynol);
- b) Os yw anifail yn peri risg annerbyniol i bobl, i'w hun neu i anifeiliaid eraill;
- c) Os yw ansawdd bywyd yr anifail yn cael ei gyfaddawdu i raddau annerbyniol, heb unrhyw obaith realistig y bydd yn gwellat;

Yn ogystal, ar gyfer bywyd gwyllt, dyma'r prif resymau dros ewthanasia:

- d) Mae diffyg disgwyliad rhesymol y bydd gan yr anifail obaith realistig o oroesi ar ôl cael ei ryddhau i ganol ei gymheiriaid gwyllt. Gellir gwneud y penderfyniad hwn adeg derbyn yr anifail claf, neu ar unrhyw adeg cyn iddo gael ei ryddhau. Lle bernir bod angen hynny, dylid cyflawni ewthanasia mor gynnar yn y broses adfer ag sy'n bosibl, yn ddelfrydol o fewn y 24-48 awr gyntaf, neu cyn gynted ag y daw'n amlwg ei bod yn anaddas rhyddhau'r anifail claf neu amddifad;

e) Bod yr anifail yn rhywogaeth estron, fel y'i diffinnir gan Adran 14 o'r Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad, gan gynnwys ei restru ar Atodlen 9, neu ei fod yn dod o dan ddarpariaethau Gorchymyn Rhywogaethau Goresgynnol Estron (Gorfodi a Chaniatáu) 2019 ac ni ellir cael trwydded ar gyfer ei ryddhau;

f) Gall ffactorau ar wahân i iechyd anifail (e.e. darpariaeth nifer ddigonol o safleoedd rhyddhau addas, cam-imprintio, hyd tebygol cyfnod gwella/adfer, gofynion cyfreithiol, pryderon eraill ynghylch ymddygiad) fod yn sail i ewthanasia hefyd, gan dybio y caiff pob opsiwn ymarferol ei archwilio.

Dylai ewthanasia gael ei gyflawni gan filfeddyg neu o dan gyfarwyddyd milfeddyg gan ddefnyddio dull dyngarol cymeradwy a, lle bo'n briodol, gan ddefnyddio tawelyddion cyn ewthanasia. Mae'r holl ddeddfwriaeth sy'n amddiffyn anifeiliaid gwyllt yn cynnwys amddiffyniad sy'n caniatáu i unrhyw un ladd anifail a warchodir **'os yw'n dangos bod yr (anifail) wedi cael ei analluogi mor ddifrifol ac eithrio gan ei weithred anghyfreithlon ei hun nad oedd unrhyw obaith rhesymol y byddai'n gwella'**. O ganlyniad, gall unrhyw unigolyn, waeth beth fo'i gymwysterau, ladd anifail gwyllt a ddiogelir er mwyn lliniaru diodefaint ar unwaith pan na fydd 'diagnosis milfeddygol' yn gwbl angenrheidiol. Dylai fod gan Sefydliad Lles Anifeiliaid Gwyllt (WAVE) brotocolau milfeddygol ysgrifenedig ar gyfer digwyddiadau o'r fath, a dylid eu trafod a'u cytuno gyda'r milfeddyg ymgynghorol. Dim ond unigolion hyfforddedig a chymwys a ddylai gyflawni ewthanasia.

b) Adfer

Dylai unrhyw hyfforddiant neu addasu ymddygiad anifeiliaid, gan gynnwys adfer bywyd gwyllt, gael ei wneud gan staff neu wirfoddolwyr cymwys sydd wedi'u hyfforddi'n briodol. Dylai'r staff a'r gwirfoddolwyr hyn feddu ar ddealltwriaeth dda o'r etholeg, ac o ran bywyd gwyllt, ecoleg y rhywogaethau y maent yn gweithio gyda nhw. Mae angen iddynt ddeall damcaniaeth dysgu a'i chymhwysiad ymarferol, a meddu ar wybodaeth am ddylanwadau eraill ar ymddygiad megis iechyd, maeth, gwybyddiaeth. Yn ogystal, ar gyfer rhywogaethau bywyd gwyllt, dylai fod gan staff a gwirfoddolwyr wybodaeth am seicoleg ddatblygiadol mewn perthynas ag anghenion creaduriaid newydd-anedig a chreaduriaid ifanc dibynnol. Mae hyn hefyd yn bwysig ar gyfer rhywogaethau domestig, oherwydd heb gymdeithasu a chynefino addas a digonol yn ystod y cyfnodau tyngedfennol, mae anifeiliaid mewn perygl o ddatblygu ymddygiad annormal. Beth bynnag yw'r amgylchiadau, ni ddylid ymgymryd â thechnegau hyfforddi anghymhellol h.y. rhai sy'n llesteirio ymddygiad annymunol drwy ddefnyddio ysgogiad annymunol. Dylai staff a gwirfoddolwyr weithio'n llwyr o fewn terfyn eu galluoedd a'u gwybodaeth.

Dylai pob sefydliad ddarparu unigolyn sy'n gyfrifol am werthuso a gweithredu rhaglenni ymddygiad ac adfer i gefnogi anghenion ymddygiadol pob rhywogaeth a gwella'r cyfle i fabwysiadu/adfer a rhyddhau rhywogaethau.

Bydd y rhywogaethau a dderbynnir gan AWE bywyd gwyllt yn dibynnu'n fawr ar y cyfleusterau adfer sydd ar gael. Mae llociau adfer yn amrywio'n fawr o ran maint a dyluniad, ac yn darparu ar gyfer unrhyw beth o famal morol mawr i golfanod bychan. Ar ôl cyfnod cychwynnol o asesiad, gofal neu driniaeth dan do, bydd yr holl adfer yn digwydd mewn llociau awyr agored er mwyn hwyluso ymddygiad dyddiol neu nosol, ac yn darparu amlygiad i amodau tywydd naturiol er mwyn caniatáu ar gyfer ymgynefino â'r hinsawdd. Bydd llociau adfer wedi'u

cynllunio'n briodol ar gyfer pob rhywogaeth i efelychu eu hamgylchedd naturiol er mwyn sicrhau lefel o ffitrwydd a stamina cymaradwy â chymheiriaid gwyllt. Dylid defnyddio teledu cylch cyfyng i gynorthwyo'r asesiad o anifeiliaid mewn llociau adfer er mwyn lleihau cyswllt dynol.

Rhyddhau bywyd gwyllt

Cyn eu rhyddhau, dylid ystyried anifeiliaid yn gwbl ffit ac yn abl i ymdopi drostynt eu hunain yn y gwyllt. Dylai asesu ffitrwydd ystyried asesiadau clinigol, ymddygiadol a chorfforol. Dylid cynhyrchu gweithdrefnau ysgrifenedig ar gyfer asesu anifeiliaid cyn eu rhyddhau, a'u diweddarau yn unol â llenyddiaeth gyhoeddedig newydd a thystiolaeth wyddonol. Ni ddylid rhyddhau anifeiliaid os bernir eu bod yn llawer llai tebygol o ffynnu yn y gwyllt nag aelod o'r un rhywogaeth neu os ydynt yn annhebygol o gael mynediad i'r boblogaeth fridio oherwydd nam corfforol neu seicolegol. Dylai'r ganolfan ddatblygu protocolau ysgrifenedig sy'n rhoi manylion am y broses asesu a gwneud penderfyniadau, yn enwedig o ran cyflyrau a all rwystro rhyddhau anifeiliaid, yn gynnwys yn ystod y cyfnod gofal, ac ewthanasia yn cael ei gyflawni cyn gynted â phosibl.

Dylid rhyddhau anifail cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl iddo gael ei ystyried yn addas i'w ryddhau, gan ddibynnu ar nifer o ffactorau eraill, gan gynnwys safleoedd rhyddhau addas, amodau tywydd cyfredol, effeithiau tymhorol ar leoliad (e.e. gaeafgysgu, mudo), ond heb gael ei oedi'n ddiangen. Nod adfer bywyd gwyllt yw rhyddhau'r anifail yn ôl i'w amgylchedd gwreiddiol, neu fan addas arall. Mae rhyddhau i'r ardal wreiddiol yn ddelfrydol, gan fod yr anifail yn gyfarwydd ag ef, gall fod ganddo diriogaeth yno, neu mae'r cynefin yn cynnal poblogaeth o'r rhywogaeth honno ac ati. Os yw anifeiliaid i gael eu trawsleoli i ardaloedd newydd, mae peryglon i'r boblogaeth letyol bresennol o anifeiliaid o'r fath a rhywogaethau eraill, oherwydd a) cyflwyno clefydau newydd posibl, b) dadleoli anifeiliaid preswyl, c) mwy o gystadleuaeth am adnoddau fel bywyd a chynefinoedd nythu ac ati,

ac mae angen rhoi sylw i'r holl beryglon hynny. Gallai goblygiadau posibl rhyddhau heb ei gynllunio fod yn drychinebus i'r ecosystem leol ac i rywogaethau cadwraeth a rhywogaethau o bryder amaethyddol. Felly, anogir yn gryf rhag trawsleoli bywyd gwyllt. Fodd bynnag, os nad oes cofnod o darddiad yr anifail, dylid dewis safleoedd rhyddhau posibl a chynnal yr arolygu priodol. Yn ddelfrydol, dylai hyn gynnwys aelodau o staff ac ecolegwyr lleol a rheolwyr cadwraeth a gweithwyr bywyd gwyllt sy'n meddu ar wybodaeth leol, a chydag ymgynghoriad a chytundeb y tirlfeddiannwr.

O dan Adran 14 o'r Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad, rhaid i ganolfannau bywyd gwyllt beidio â rhyddhau, neu ganiatáu dianc i'r gwyllt yn fwriadol, unrhyw rywogaeth nad yw'n gynhenid (a rhai rhywogaethau cynhenid), ac eithrio o dan drwydded gan yr awdurdod priodol. Ceir cyfyngiadau tebyg mewn perthynas â chaniatáu i ddianc a rhyddhau rhywogaethau sy'n dod o dan Orchymyn Rhywogaethau Goresgynnol Estron (Gorfodi a Chaniatáu) 2019.

c) Ailgartrefu

Dylai'r sefydliad fod yn ymrwymedig i bolisi ailgartrefu caeth a chyfrifol ar gyfer anifeiliaid priodol ac ar gyfer cartrefi priodol yn unig.

Dylai AWE feddu ar yr holl wybodaeth berthnasol i sicrhau bod gan y darpar berchennog newydd gyfleusterau digonol a bod ei amgylchiadau'n cyd-fynd â gofalu am yr anifail unigol y mae wedi gwneud cais i'w ailgartrefu. Mae'n arfer da cyfweld y darpar geidwad newydd a llenwi ffurflen gais ailgartrefu. Dylai hyn gynnwys cais am wybodaeth am brofiad blaenorol o berchenogaeth anifeiliaid, ffordd o fyw'r teulu, a'r cyfleusterau a gynigir yn y cartref newydd. Dylid cael prawf o'r cyfeiriad bob amser. Nid oes angen ymweld â'r darpar gartref bob tro, ond efallai y bydd angen gwneud hynny os oes gan yr anifail anghenion penodol, ac os oes

gan yr ailgartrefwr amheuon ynghylch ffensys addas i'r ffin neu'r amgylchedd lleol ac os nad yw'n gallu tynnu lluniau priodol. Mae hefyd yn arfer da i gael tystlythyrau ysgrifenedig ar gyfer darpar berchnogion newydd gan AWE neu bractis milfeddygol arall sy'n dangos profiad blaenorol o gadw anifeiliaid. Dylai'r darpar berchnogion newydd hefyd gael cyfle i ryngweithio â'r anifail, a gall yr AWE a'r darpar ailgartrefwr ddewis gwrthod y cynnig ar yr adeg honno am unrhyw reswm.

Fel arfer, ni ddylid rhoi anifeiliaid i berchennog neu geidwad newydd heb i'r perchennog neu'r ceidwad newydd hwnnw wneud cyfraniad ariannol i'r sefydliad, gan fod ymchwil yn awgrymu bod hyd yn oed ffi gymharol ansylweddol yn ddefnyddiol wrth wneud i'r ailgartrefwr asesu ei ddifrifoldeb am ailgartrefu. Mae angen i faint y cyfraniad ariannol fod yn ddigon i atal y "prynwr byrbwyll". Mae gofalu am anifail yn ymrwymiad ariannol hirdymor a byddai'r sefydliad yn gywir i bryderu lle mae darpar berchennog newydd yn datgan na all wneud cyfraniad ariannol.

Dylid rhoi gwybodaeth ysgrifenedig i bob darpar berchennog ar sut i ofalu am y rhywogaethau hynny a'r costau disgwylidig sy'n gysylltiedig â hynny pan fyddant wedi nodi eu bod yn dymuno cynnig cartref i anifail. Dylai'r wybodaeth hon gynnwys cyngor ar ddeiet priodol ar gyfer yr anifail sy'n cynnwys; hylendid, toiledu, iechyd a rheoli paraseitiaid, trefniadau cysgu, ymarfer corff, trin a golchi, cymdeithasoli â phobl ac anifeiliaid eraill, sut i adnabod arwyddion o straen neu salwch, a'r manteision a'r risgiau wrth niwtro rhai rhywogaethau domestig. Dylid hefyd cael cyngor clir ar sut i gyflwyno'r anifail i'r amgylchedd newydd. Dylai'r darpar berchennog newydd gael cyngor penodol a manylion perthnasol am ei anifail anwes newydd penodol a'i ofal yn y dyfodol, yn ymddygiadol ac yn filfeddygol. Dylid bob amser ddatgelu unrhyw faterion iechyd blaenorol neu barhaus i'r darpar berchennog.

Dylid brechu'r anifail newydd a'i drin ar gyfer paraseitiaid, os yw'n cael ei gynghori gan filfeddyg. I lawer o anifeiliaid cydymaith, oni bai bod hynny'n groes i gyngor milfeddygol, mae'n arfer da niwro'r anifail anwes cyn ei ailgartrefu. Lle bo'n berthnasol, dylid nodi anifeiliaid yn gywir a'u cofrestru ar gronfa ddata briodol. Dylai pob anifail gael ei archwilio'n llawn cyn iddo adael, os nad gan filfeddyg, yna gan berson sy'n meddu ar y sgiliau a'r gallu priodol. Os rhoddir y dystysgrif iechyd, mae'n ategol yn hytrach nag yn ddewis amgen, i'r archwiliad milfeddygol. Dylid rhoi cofnod brechu i'r perchennog newydd.

Dylid datgelu unrhyw faterion iechyd a/neu ymddygiadol blaenorol neu barhaus i unrhyw berchnogion newydd bob amser. Dylid egluro i'r perchennog newydd fod croeso iddo gysylltu â'r sefydliad os oes angen cyngor neu wybodaeth ar unrhyw fater yn ymwneud â'i anifail anwes newydd. Dylai'r sefydliad gysylltu â'r perchennog newydd o fewn ychydig wythnosau i'r ailgartrefu er mwyn sicrhau nad oes problemau neu anawsterau.

Dylai'r sefydliad gynnig cymorth i'r perchennog newydd pe bai unrhyw anawsterau'n codi a bod yn barod i gymryd yr anifail yn ôl os bydd yr ailgartrefu'n aflwyddiannus. Os nad oes gan y ganolfan ailgartrefu unrhyw leoedd gwag, dylid rhoi blaenoriaeth i'r anifail hwnnw ar unrhyw restr aros.

Ceir gwybodaeth ynghylch ailgartrefu anifail anwes sy'n perthyn i rywogaeth o dan ddarpariaethau Gorchymyn Rhywogaethau Goresgynnol Estron (Gorfodi a Chaniatáu) 2019 yn Atodiad 2.

"Perchnogaeth ar fywyd gwyllt a anafwyd"

Nid yw bywyd gwyllt yn eiddo yn ystyr draddodiadol y gair. Fodd bynnag, os bydd unigolyn yn casglu creadur gwyllt sydd wedi'i anafu, gellir ystyried yn gyfreithiol ei fod wedi'i ddiogelu o dan adran 2 (b) ac (c) o'r Ddeddf

a'r unigolyn fydd yn gyfrifol am yr anifail hwnnw o dan adran 3 (1). Os caiff yr anifail a anafwyd ei gyflwyno i Sefydliad Lles Anifeiliaid Gwyllt (WAWE) neu filfeddygfa, mae'n bwysig sicrhau bod cyfrifoldeb yn cael ei drosglwyddo o'r canfyddwr i'r AWE bywyd gwyllt neu'r practis milfeddygol.

Adnabod Parhaol

Dylai pob anifail a ddelir gan y sefydliad gael eu hadnabod yn barhaol yn unol â'r ddeddfwriaeth; dylai'r sefydliad gadw a diweddarau cofnodion.

d) Maethu

Mae nifer o sefydliadau ailgartrefu yn defnyddio cartrefi "maeth" i ofalu am anifeiliaid dros dro hyd nes y gellir dod o hyd i gartref newydd parhaol. Gall hyn fod yn ychwanegol at unedau llety cŵn a chathod traddodiadol neu gall fod yr unig ffordd y mae'r sefydliad yn trefnu i gartrefu a gofalu am yr anifeiliaid. Fel arfer, darperir y cartrefi maeth hyn gan wirfoddolwyr lle y gofelir am anifeiliaid achub yng nghartrefi'r gwirfoddolwyr eu hunain neu mewn unedau llety bach ar gyfer anifeiliaid.

Gall maethu gartref fod yn ffordd dderbyniol o ofalu am anifeiliaid sy'n cael eu hachub neu nad oes neb eu heisiau, ond mae angen bod yn ofalus er mwyn sicrhau bod safon y gofal a ddarperir yn y cartref maeth yn foddhaol. Mae'n bwysig, felly, fod pob cartref a ddefnyddir i ddarparu gofal maeth yn derbyn ymweliad, ac yn cael ei asesu a'i gymeradwyo gan aelod o staff neu wirfoddolwyr y sefydliad sydd â'r wybodaeth briodol cyn ei ddefnyddio ar gyfer lletya anifeiliaid. Dylai unrhyw asesiad ymchwilio i alluoedd yr unigolion, priodoldeb y safle a'r llety a ddarperir. Hefyd, dylid hyfforddi maethwyr yn ddigonol, gan gynnwys unrhyw hyfforddiant sy'n deillio o asesiad risg. Dylid gwneud asesiad, a dod i gytundeb, gyda'r maethwr ar y nifer fwyaf o anifeiliaid i'w lletya ar unrhyw un adeg.

Dylai AWE ceffylau sy'n defnyddio system o gytundebau benthyg ar gyfer sefyllfaoedd benthyca lled-barhaol gyfeirio at god ymarfer y Cyngor Lles Ceffylau Cenedlaethol (NEWC). www.newc.co.uk/law/equine-code-of-practice/.

e) Adnabod ac Olrhain

Cyn i unrhyw rywogaeth nad yw'n rhywogaeth bywyd gwyllt gael ei hailgartrefu, dylid ei hadnabod yn barhaol mewn ffordd sy'n briodol i'w rhywogaeth ac yn unol â'r gyfraith. Dylai'r gwaith o fewnblannu unrhyw sglodion gael ei gwblhau gan berson â chymwysterau addas yn unol ag unrhyw reoliad perthnasol. Dylai AWE feddu ar (neu fod yn gallu sicrhau defnydd) yr offer perthnasol (sganiwr sy'n cydymffurfio ag ISO, fel arfer) i wirio pob anifail. Os oes sglodyn wedi'i fewnblannu eisoes, dylid gwneud ymdrechion rhesymol i olrhain y perchennog neu'r ceidwad cofrestredig. Yn sgil y cynnydd mewn teithio rhyngwladol, dylai hyn gynnwys cyfeiriadau at gronfeydd data ar gyfer anifeiliaid sy'n tarddu o'r tu allan i'r DU.

Bywyd gwyllt

Mae monitro bywyd gwyllt ar ôl eu rhyddhau yn rhan hanfodol o'r broses adfer. Er y gall fod yn ddrud a chymryd llawer o amser, mae monitro sylfaenol yn bwysig i sicrhau nad yw lles anifeiliaid a adferwyd yn cael ei beryglu ar ôl ei ryddhau. Yn ddelfrydol, dylid tagio a chofnodi pob anifail a ryddhawyd (e.e. cynllun modrwyo adar, wedi'i gofrestru gydag Ymddiriedolaeth Adareg Prydain a'i gynnal gan fodrwywr sydd wedi'i hyfforddi'n briodol, a mewnblannu Microsglodyn Amledd Radio (RFID) mewn mamaliaid). Dylid defnyddio dulliau eraill lle bo'n briodol (e.e. tagiau clust, tatŵs, tagiau radio), er bod angen trwydded ar gyfer rhai rhywogaethau gan Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Swyddfa Gartref o bosibl. Ni ddylai unrhyw fath o fodrwyo, tagio na gosod microsglodyn beryglu ymddygiad na lles yr anifail sy'n cael ei fonitro. Dylai adferwyr a'u milfeddygon geisio cyngor priodol cyn cychwyn ar ddulliau monitro ar ôl rhyddhau o'r fath, a chyfeirio at y llenyddiaeth ddiweddaraf.

Rhan 5: Cludo Anifeiliaid

Mae Rheoliad yr UE ar les anifeiliaid wrth eu cludo yn ymwneud â chludo'r holl anifeiliaid asgwrn cefn byw at ddibenion gweithgarwch economaidd (h.y. busnes neu fasnach) ac mae'n cael ei weithredu yng Nghymru gan Orchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Cymru) 2007. Efallai y bydd angen i ambell AWE gael awdurdodiad cerbyd neu hyfforddiant a thystysgrifau cymhwysedd o dan y Gorchymynion perthnasol. Dylid felly gwneud ymholiadau lleol ynghylch cyfrifoldebau'r AWE o dan y Gorchymyn. Mae darpariaethau penodol ar gyfer cludo rhai rhywogaethau da byw, gan gynnwys y gofyniad am drwyddedau symud. Efallai y bydd angen trwydded i gludo anifeiliaid a ddaw o dan ddarpariaethau Gorchymyn Rhywogaethau Goresgynnol Estron (Gorfodi a Chaniatáu) 2019 oni bai eu bod yn cael eu cludo at ddiben eu hailgartrefu fel anifeiliaid anwes. Dylai AWE wirio eu bod yn cydymffurfio â'r darpariaethau hyn cyn eu cludo.

Mae'r holl anifeiliaid sy'n cael eu cludo rhwng neu i Aelod-wladwriaethau'r UE at ddibenion ailgartrefu, gan gynnwys Gweriniaeth Iwerddon a'r rhai sy'n croesi Gogledd Iwerddon, yn cael eu hystyried yn "symudiad masnachol" a rhaid iddynt gydymffurfio â gofynion Cyfarwyddeb Balai (92/65/EEC).

Dylai pob AWE sy'n mynd ag anifeiliaid ar daith, beth bynnag fo hyd y daith, ddefnyddio arferion cludiant da bob amser a dilyn y gofynion, a hynny os oes angen awdurdodiad o dan y Gorchymynion ai peidio.

- Mae'r egwyddorion yn berthnasol i unrhyw gerbyd, neu drelar da byw, a ddefnyddir ar gyfer cludo anifeiliaid, ac mae'n cynnwys cerbydau sy'n eiddo i'r AWE ac sy'n cael eu prydlesu ganddynt, cerbydau cludwyr anifeiliaid proffesiynol a cherbydau personol sy'n eiddo i aelodau o'r staff neu wirfoddolwyr os awdurdodir gan yr AWE ar gyfer dibenion cludiant.
- Dylid ystyried addasrwydd pob anifail i gael ei gludo cyn gwneud hynny. Dim ond er mwyn ceisio triniaeth filfeddygol y gellir cludo anifeiliaid sy'n sâl, wedi'u hanafu neu'n gloff.
- Dylai cerbydau fod yn addas ar gyfer cludo'r anifeiliaid dan sylw, gan sicrhau diogelwch anifeiliaid a theithwyr dynol wrth eu cludo yn ogystal â sicrhau ataliaeth a chysur addas.
- Rhaid cadw'r tu mewn i gerbydau a threlars mewn cyflwr glân gan roi sylw manwl i reoli clefydau.
- Dylid cynnal a chadw cerbydau a threlars yn ôl safonau uchel a'u gwasanaethu'n rheolaidd.
- Rhaid cludo anifeiliaid yn addas ac yn briodol ar gyfer y rhywogaeth unigol, gan gynnwys gofynion gofodol. Dylai cynwysyddion gynnig darpariaeth ar gyfer archwilio yn ystod y daith ac awyriad addas, lleithder a gwasarn priodol. Dylai'r anifail allu sefyll ac, yn dibynnu ar rywogaethau, i droi a gorwedd, er efallai y bydd angen gwneud addasiadau ar gyfer anifeiliaid sydd wedi'u hanafu. Dylai trelars fod â lloriau gwrthlithro a rampiau sy'n addas i'r rhywogaeth sy'n cael ei chludo.
- Dylai cynwysyddion sy'n dal anifeiliaid gael eu labelu â gwybodaeth am rywogaethau, man gadael, cyrchfan a manylion cyswllt, rhag ofn y ceir argyfwng (e.e. damwain). Mae hyn yn arbennig o bwysig os yw'n cludo anifeiliaid a allai fod yn drafferthus mewn cynwysyddion lle na ellir gweld yr anifail o'r tu allan.
- Ni ddylid cludo anifeiliaid o fewn i olwg, arogl neu sain ysglyfaethwr.
- Dylid cadw amseroedd teithio mor fyr â phosibl.

- Dylid bwydo anifeiliaid a rhoi dŵr iddynt ar ysbeidiau addas yn ôl rhywogaeth a hyd y siwrnai. Ar gyfer cŵn sydd wedi cael eu hyfforddi yn y cartref, dylid darparu cyfleoedd ar gyfer toiledau. d.
- Ni ddylech gludo anifeiliaid yn ystod cyfnodau o dywydd eithafol os nad oes modd rheoli tymheredd mewnol y cerbyd neu'r trelar.
- Ni ddylid gadael anifeiliaid ar eu pennau eu hunain mewn cerbydau neu drelars.
- Dylai cyfleusterau sy'n addas ar gyfer dal, cario/codi, cratio a chludo'r holl fathau o anifeiliaid a gedwir yn yr AWE fod ar gael yn rhwydd. Dylai hyn gynnwys cyfarpar addas ar gyfer dal anifeiliaid a anafwyd yn ogystal ag i'w cludo y tu mewn a thu allan i'r AWE neu safle arall.
- Dylai technegau dal a chludo ystyried natur ac ymddygiad dianc yr anifail er mwyn lleihau anaf, difrod a gofid. Mae'n drosedd caniatáu rhai anifeiliaid (e.e. rhywogaethau goresgynnol estron) i ddianc, hyd yn oed yn ddamweiniol. Dylai'r AWE fedru dangos ei fod wedi cymryd pob cam rhesymol ac arfer pob diwydrwydd dyledus i osgoi cyflawni trosedd.
- Dylai unrhyw anifail sy'n cael ei gludo ar ran yr AWE gael ei drin gan aelod o staff neu wirfoddolwr sydd wedi'i hyfforddi'n briodol, neu berson(au) cymwys sy'n gweithredu ar ei ran. Dylid gwneud darpariaeth ddigonol ar gyfer diogelwch a lles yr anifeiliaid a'r cyhoedd. Dylid cadw at bolisi lechyd a Diogelwch yr AWE bob amser.
- Dylai cadw anifeiliaid rhag cyswllt uniongyrchol â phersonau heblaw'r aelod staff, gwirfoddolwr neu bersonau cymwys sy'n gweithredu ar eu rhan, oni bai bod y triniwr yn fodlon nad yw'r anifail yn debygol, o dan reolaeth, o ddioddef trallod neu achosi anaf neu i drosglwyddo neu ddal clefyd. Dylai'r triniwr fod yn ymwybodol y gallai ymddygiad yr anifail ddod yn llai rhagweladwy pan fydd i ffwrdd o'i amgylchedd arferol a chymryd gofal priodol.
- Os yw'r daith yn golygu trosglwyddo anifeiliaid rhwng gwahanol gerbydau neu drelars, dylai'r lleoliad trosglwyddo dynodedig fod yn saff, yn ddiogel ac yn briodol ar gyfer y rhywogaeth.
- Dim ond i bersonau cyfrifol sydd â'r cyfleusterau, yr adnoddau a'r arbenigedd priodol i sicrhau lles yr anifeiliaid y dylid trosglwyddo anifeiliaid gwyllt; bydd y gofynion hyn yn benodol i wahanol rywogaethau. Lle bo angen, dylid meddu ar y trwyddedau priodol ar gyfer cadw a rheoli'r rhywogaeth. Gall personau o'r fath gynnwys y rhai sy'n cyflawni camau olaf y broses adfer a rhyddhau.
- Dylai fod cynlluniau wrth gefn ar waith a fyddai'n dod i rym mewn amgylchiadau o'r fath wrth i'r siwrnai fynd yn hirach oherwydd oedi sylweddol. Er enghraifft, pe bai'r cerbyd yn dioddef methiant mecanyddol neu'n rhan o ddamwain ffordd.

Atodiad 1 – Deddfwriaeth sy'n ymwneud ag iechyd a lles anifeiliaid

Roedd yr holl ddeddfwriaeth yn gywir adeg ei chyhoeddi.

- Deddf Lles Anifeiliaid 2006.
- Deddf Lles Anifeiliaid 2006 (Cychwyn Rhif. 2 a Darpariaethau Arbed a Throsiannol) (Cymru) 2007.
- Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014.
- Deddf Sefydliadau Lletya Anifeiliaid 1963.
- Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981 (yn enwedig Adran 13).
- Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981.
- Deddf Anifeiliaid 1971.
- Deddf Anifeiliaid (Gwenwynau Creulon) 1962.
- Deddf Anifeiliaid (Gweithdrefnau Gwyddonol) 1986.
- Deddf Bridio Cŵn 1973.
- Deddf Bridio a Gwerthu Cŵn (Lles) 1999.
- Deddf Ffilmiau Sinematograff (Anifeiliaid) 1937.
- Deddf Elusennau 2011.
- Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 (Rhan 6).
- Cod Ymarfer ar gyfer Lles Cathod (2019).
- Cod Ymarfer ar gyfer Lles Cŵn (2018).
- Cod Ymarfer ar gyfer Lles Ceffylau (2018).
- Cod Ymarfer ar gyfer Lles Adar sy'n cael eu magu ar gyfer eu hela 2010 (i rym 2011, yn cael ei adolygu ar hyn o bryd).
- Cod Ymarfer ar gyfer Lles Da Byw: Gwartheg 2010.
- Cod Ymarfer ar gyfer Lles Da Byw: Defaid 2010.
- Cod Ymarfer ar gyfer Lles Cwningod (2009, yn cael ei adolygu ar hyn o bryd).
- Cod Argymhellion ar gyfer Lles Da Byw: leir Dodwy 2002.
- Cod Argymhellion ar gyfer Lles Da Byw: Moch 2004.
- Rheoliad y Comisiwn 2015/262 sy'n gosod y rheolau o ran dulliau adnabod ceffylau.
- Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017.
- Deddf Cadwraeth Morloi 1970.
- Rheoliadau Rheoli Masnach mewn Rhywogaethau mewn Perygl (Gorfodi) 1997 (COTES).
- Confensiwn ar Fasnach Ryngwladol mewn Rhywogaethau Ffawna a Fflora Gwyllt sydd mewn Perygl.
- Rheoliad Cyngor y CE Rhif 1/2005 ar ddiogelu anifeiliaid wrth eu cludo a gweithrediadau cysylltiedig.
- Deddf Cŵn Peryglus 1989.
- Deddf Cŵn Peryglus 1991.
- Gorchymyn Cynlluniau Digolledu ac Eithrio Cŵn Peryglus 1991.
- Deddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976.
- Deddf Ceirw 1991.
- Deddf Anifeiliaid Dinistriol a Fewnforir 1932.
- Deddf Cŵn 1871.
- Deddf Cŵn 1906.
- Deddf Cŵn (Baeddu Tir) 1996.
- Deddf Cŵn (Diogelu Da Byw) 1953.
- Rheoliad Cyngor y CE 1/2005 ar ddiogelu anifeiliaid wrth eu cludo.
- Deddf yr Amgylchedd 1995.
- Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (Adrannau 149-151).
- Rheoliadau Gwarchod yr Amgylchedd Cŵn (Baeddu Tir) 1996.
- Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Cŵn Strae) 1992.

- Rheoliad yr UE (1143/2014) ar rywogaethau goresgynnol estron (nad ydynt yn gynhenid)/Rhywogaethau Goresgynnol Estron yr UE Rheoliad/Rheoliad (EU) Rhif 1143/2014.
- Deddf Cŵn Gwarchod 1975 (Adran 1).
- Deddf Llywodraeth Leol 1988 (Adrannau 37-39).
- Deddf Meddyginiaethau 1968.
- Rheoliadau Microsglodynnu Cŵn (Cymru) 2015.
- Deddf Anifeiliaid Perfformio (Rheoliadau) 1925.
- Rheolau Anifeiliaid Perfformio 1925 (diddymir ar ôl gweithredu Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Arddangosion Anifeiliaid) (Cymru) 2020).
- Rheolau Anifeiliaid Perfformio 1968 (diddymir ar ôl gweithredu Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Arddangosion Anifeiliaid) (Cymru) 2020).
- Deddf Anifeiliaid Anwes 1951 (Trwyddedu siopau anifeiliaid anwes).
- Deddfau Diogelu Anifeiliaid (Anesthetyddion) 1954 a 1964.
- Deddf Gwarchod Moch Daear 1992.
- Deddf Sefydliadau Marchogaeth 1964.
- Deddf Gwerthu Nwyddau 1979 (Ailgartrefu am ffi).
- Deddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005.
- Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014.
- Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Coleri Electronig) (Cymru) 2010.
- Deddf Marchfeddygon (Cofrestru) 2017.
- Gorchymyn Gwiwerod Llwyd (Gwahardd Mewnforio a Chadw) 1937.
- Gorchymyn Rhywogaethau Goresgynnol Estron (Gorfodi a Chaniatáu) 2019.
- Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru a Lloegr) 2005.
- Rheoliadau Anffurfio (Triniaethau a Ganiateir) (Cymru) (Diwygio) 2010.
- Rheoliadau Meddyginiaethau Milfeddygol, 2013.
- Gorchymyn Lles Anifeiliaid mewn Marchnadoedd 1990.
- Gorchymyn Lles Anifeiliaid mewn Marchnadoedd (Diwygio) 1993.
- Rheoliadau Lles Anifeiliaid Adeg eu Lladd (Cymru) 2014.
- Rheoliadau Lles Anifeiliaid Adeg eu Lladd (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2014.
- Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Cymru) 2007.
- Gorchymyn Lles Ceffylau mewn Marchnadoedd (a Mannau Gwerthu Eraill) 1990.
- Y Ddeddf Chwyn 1959.
- Rhaeadr Milfeddygol (y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol).
- Gorchymyn Deddf Llawfeddygon Milfeddygol 1966 (Diwygio Atodlen 3) 2002.
- Gorchymyn Llawfeddygaeth Filfeddygol (Samplu Gwaed) 1983.
- Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007.
- Deddf Amddiffyn Mamaliaid Gwylt 1996
- Deddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981 (Rhan 1).
- Deddf Trwyddedu Sŵau 1981.

Atodiad 2 – Deddfwriaeth sy'n berthnasol i Adfer Bywyd Gwyllt

Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 ("Deddf 1981")

Dyma'r prif ddarn o ddeddfwriaeth yng Nghymru a Lloegr ar gyfer diogelu bywyd gwyllt. Diogelir pob aderyn ac amrywiaeth o rywogaethau planhigion ac anifeiliaid eraill dan Ddeddf 1981. Mae Deddf 1981 hefyd yn cynnwys adrannau sy'n ymwneud â Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol, Parciau Cenedlaethol a mynediad i gefn gwlad a hawliau tramwy. Mae Deddf 1981 wedi'i diwygio sawl gwaith, yn fwyaf nodedig drwy Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (2000), Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig (2006) a'r Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau (2017). Fodd bynnag, ni fydd yr holl ddarnau hyn o ddeddfwriaeth yn cael eu trafod yma. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn ei gwneud yn drosedd cgymyrd, lladd neu anafu anifail gwyllt a warchodir yn fwriadol, neu darfu ar anifail o'r fath yn ei fan cysgodi, neu ddifrodi, dinistrio neu rwystro mynediad i'w fan cysgodi. Mae hefyd yn drosedd bod yn berchen ar anifail a warchodir, yn fyw neu'n farw. Fodd bynnag, mae Deddf 1981 hefyd yn cynnwys amryw o amddiffynfeydd. Trafodir rhai ohonynt isod dan yr Atodlenni, ond y rhai pwysig, gan eu bod yn berthnasol i adfer bywyd gwyllt yw Rhan 1, Adran 4 (2)a a (2)b ar gyfer adar a Rhan 1, Adran 10, (3)a, b ac c ar gyfer anifeiliaid eraill, fel y'u rhestrir yn Atodlen 5 y Ddeddf.

Wildlife and Countryside Act, Part 1, Section 4:

(2) Notwithstanding anything in the provisions of section 1 or any order made under section 3, a person shall not be guilty of an offence by reason of –

- (a) the taking of any wild bird if he shows that the bird had been disabled otherwise than by his unlawful act and was taken solely for the purpose of tending it and releasing it when no longer disabled;

- (b) the killing of any wild bird if he shows that the bird had been so seriously disabled otherwise than by his unlawful act that there was no reasonable chance of its recovering.

Wildlife and Countryside Act, Part 1, Section 10:

(3) Notwithstanding anything in section 9, a person shall not be guilty of an offence by reason of –

- (a) the taking of any such animal if he shows that the animal had been disabled otherwise than by his unlawful act and was taken solely for the purpose of tending it and releasing it when no longer disabled;
- (b) the killing of any such animal if he shows that the animal had been so seriously disabled otherwise than by his unlawful act that there was no reasonable chance of its recovering;

Mae'r amddiffynfeydd hyn yn caniatáu i unrhyw un godi a thrin anifail gwyllt a warchodir at ddibenion ei drin a'i ryddhau, neu, i'w ewthaneiddio er mwyn ei atal rhag dioddef rhagor. Gellir canfod amddiffynfeydd tebyg yn y Ddeddf Gwarchod Moch Daear (1992); Deddf Ceirw (1991); Deddf Cadwraeth Morloi (1970) a'r Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017.

Rhan bwysig arall i adferwyr fod yn ymwybodol ohoni yw Adran 14, sy'n gwahardd rhyddhau anifeiliaid penodol i'r gwyllt.

Wildlife and Countryside Act, Part 1, Section 14.

Introduction of new species etc.

(1) Subject to the provisions of this Part, if any person releases or allows to escape into the wild any animal which –

- (a) is of a kind which is not ordinarily resident in and is not a regular visitor to Great Britain in a wild state; or
- (b) is included in Part I, Part IA or IB of Schedule 9, a hybrid of any animal of that kind, he shall be guilty of an offence.

Atodlenni

Mae Deddf 1981 yn cynnwys nifer o Atodlenni, sy'n ymwneud ag adrannau penodol o'r ddeddf. Mae'r canlynol o ddi-ddordeb uniongyrchol i'r adferwr.

- Mae Atodlen 4 yn rhestru rhywogaethau o adar y mae'n rhaid eu cofrestru a'u modrwyo os ydynt yn cael eu cadw mewn caethiwed – mae hyn yn cynnwys cyfnod adfer. Ceir Trwyddedau Cyffredinol sy'n caniatáu i rai pobl gadw'r adar hyn am gyfnod penodol o amser, e.e. gall milfeddyg gadw aderyn o'r fath am chwe wythnos, cyn y bydd gofyn iddo/iddi ei gofrestru.
- Mae Atodlen 5 yn rhestru'r rhywogaethau o anifeiliaid, ac eithrio adar, a warchodir gan Ddeddf 1981 e.e. pob ystlum, dyfrgwn a gwiwerod coch ac ati.
- Mae Atodlen 9 yn rhestru'r anifeiliaid y tybir eu bod yn byw yn y DU, ond y byddai eu rhyddhau yn drosedd o dan Adran 14, oni bai bod gan yr AWE drwydded i wneud hynny*.

* Mae Gorchymyn Rhywogaethau Goresgynol Estron (Gorfodi a Chaniatáu) 2019 yn diwygio Atodlen 9 o Ddeddf 1981 i hepgor y rhywogaethau anifeiliaid a restrir ar restr Rhywogaethau Goresgynol Estron yr UE. Mae'n drosedd o dan Orchymyn 2019 i ryddhau'r rhywogaethau hyn yn yr amgylchedd oni bai bod yr AWE wedi cael trwydded i wneud hynny.

Trwyddedau

LCaniateir i drwyddedau gael eu dyroddi o dan Adran 16 o Ddeddf 1981 at amrywiaeth o ddibenion; er enghraifft, marcio neu fodrwyo aderyn gwyllt at ddiben gwyddonol neu warchod fflora a ffawna. Cyn hynny, roedd yn bosibl gwneud cais am drwydded o dan Adran 16(4) i ryddhau anifeiliaid a adferwyd e.e. gwiwerod llwyd, gan ddibynnu ar leoliad yr AWE ac ati.

Nid oes eithriad mwyach ar gyfer rhyddhau anifeiliaid a restrir o dan Reoliad Rhywogaethau Goresgynol Estron yr UE (e.e. gwiwerod llwyd, ceirw mwntjac, gwyddau'r Aifft) at ddibenion eu hadfer.

Mae amodau penodol i drwyddedau; mae torri'r amodau hyn yn drosedd, felly os caiff yr AWE drwydded ar gyfer gweithgaredd, dylai sicrhau y cydymffurfir â'r holl amodau sydd ynghlwm wrthi.

Trwyddedau Cyffredinol

Mae Trwyddedau Cyffredinol yn caniatáu i weithgareddau penodol gael eu cynnal a fyddai fel arall yn anghyfreithlon ac mae adfer yn un enghraifft. Maent yn cwmpasu amrywiaeth o weithgareddau yr ystyrir eu bod yn rhai risg isel a lle mae'n debygol y byddai unrhyw gais am drwydded yn cael ei ganiatáu. Mae hyn felly yn lleihau'r baich gwaith biwrocraidd. Nid oes angen gwneud cais am Drwydded Gyffredinol; gellir ei lawrlwytho o'r wefan briodol. Yn ogystal, mae gan Drwyddedau Cyffredinol amodau y mae'n rhaid glynu'n gaeth atynt. Maent yn cael eu hailgyhoeddi bob blwyddyn, ac yn cael eu diwygio. Rydym yn argymhell bod yr AWE yn Sellwn gwefan trwyddedu rhywogaethau Cyfoeth Naturiol Cymru i weld a yw'r drwydded wedi'i diweddarau, cyn i'r AWE ymgymryd ag unrhyw weithgarwch o dan y drwydded. www.naturalresources.wales/permits-and-permissions/species-licensing/?lang=en.

Dyma enghreifftiau o drwyddedau cyffredinol ar gyfer adferwyr a gyhoeddwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru:

- Trwydded Gyffredinol 007 – trwydded i gadw adar gwyllt o rywogaethau a restrir yn Atodlen 4 ar gyfer eu hadfer.
- Trwydded Gyffredinol 009 – trwydded i ryddhau adar Atodlen 9 sy'n cael eu bridio'n wyllt*.

* Mae Gorchymyn Rhywogaethau Goresgynol Estron (Gorfodi a Chaniatáu) 2019 yn diwygio Atodlen 9 o Ddeddf 1981 i hepgor y rhywogaethau anifeiliaid a restrir ar restr Rhywogaethau Goresgynol Estron yr UE. Mae'n drosedd o dan Orchymyn 2019 i ryddhau'r rhywogaethau hyn yn yr amgylchedd oni bai bod yr AWE wedi cael trwydded i wneud hynny – mae hynny'n cynnwys gwydd yr Aifft.

Crynodeb

Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad, Rhan 1, Eithriadau Adran 4:

Mae Deddf 1981 yn cynnwys caniatáu cymryd o'r gwyllt aderyn sy'n sâl neu wedi'i anafu neu greadur arall a warchodir at ddiben ei drin nes ei fod yn ddigon da i'w ryddhau. Os yw wedi'i anafu neu ei heintio y tu hwnt i'r gobaith o'i adfer, gellir ei ewthaneiddio. Dim ond tan nad yw bellach wedi'i analluogi y mae hawl i gadw rhywogaeth a warchodir sydd wedi'i analluogi. Ni ddylid ei gadw mewn modd a fyddai'n llesteirio ei allu i ddychwelyd i'r gwyllt e.e. llety anaddas sy'n achosi difrod i gyflwr corfforol neu seicolegol (niwed i'r plu neu'r ambilen neu gam-imprintio).

Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad, Rhan 1, adran 7 ac atodlen 4

Os oes unrhyw aderyn sydd wedi'i gynnwys yn Atodlen 4 nad yw wedi'i gofrestru a'i fodrwyo neu wedi'i farcio yn unol â rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, mae Adran 7 Deddf 1981 yn datgan y bydd unrhyw berson sydd ag ef yn ei feddiant neu o dan ei reolaeth yn euog o drosedd. Enghreifftiau o rywogaethau y gellir eu cyflwyno i ganolfannau achub a gynhwysir yn Atodlen 4 yw – hebog tramor, gwalch Marthin, barcud, cudyll bach, coch dan adain ac ati. Mae 62 o rywogaethau o adar wedi'u rhestru o dan yr atodlen hon yng Nghymru. Dylai AWE gysylltu â'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) i gofrestru aderyn atodlen 4.

Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, Rhan 1, adran 14 ac Atodlen 9

Mae Atodlen 9 yn rhestru rhywogaethau estron gan fwyaf sydd eisoes wedi ymgartrefu yn y gwyllt ond sy'n parhau i fod yn fygythiad cadwraethol i fioamrywiaeth a chynefinoedd brodorol, i'r graddau bod angen eu rheoleiddio rhag i ragor gael eu rhyddhau. Mae'r Atodlen yn cynnwys rhai rhywogaethau brodorol hefyd (e.e. y dylluan wen) er mwyn darparu lefel o reolaeth i sicrhau, pan gânt eu rhyddhau, bod hynny'n digwydd mewn ffordd briodol, yn enwedig fel rhan o Raglenni ailgyflwyno, a bod y fioamrywiaeth yn cael ei diogelu'n briodol*.

* Mae Gorchymyn Rhywogaethau Goresgynnol Estron (Gorfodi a Chaniatáu) 2019 yn diwygio Atodlen 9 o Ddeddf 1981 i hepgor y rhywogaethau anifeiliaid a restrir ar restr Rhywogaethau Goresgynnol Estron yr UE. Mae'n drosedd o dan Orchymyn 2019 i ryddhau'r rhywogaethau hyn yn yr amgylchedd oni bai bod yr AWE wedi cael trwydded i wneud hynny.

Rheoliad Rhywogaethau Goresgynnol Estron yr UE (rhif 1143/2014) a Gorchymyn Rhywogaethau Goresgynnol Estron (Gorfodi a Chaniatáu) 2019

Daeth Rheoliad yr UE i rym ar 1 Ionawr 2015. Mae'n gosod cyfyngiadau llym ar restr o rywogaethau o'r enw 'Rhywogaethau Goresgynnol Estron o bryder i'r Undeb'. Rhywogaethau yw'r rhain all gael effaith niweidiol ar draws yr UE a bod angen mynd i'r afael â nhw ar draws Ewrop. Mae'r cyfyngiadau (yn amodol ar amddiffynfeydd neu eithriadau trwy drwydded neu hawlen) yn golygu na chaniateir mewnforio'r rhywogaethau hyn i'r UE na'u cadw, eu bridio, eu cludo, eu gosod yn y farchnad, eu defnyddio na'u cyfnewid, eu caniatáu i epilio, eu tyfu na'u trin, na'u rhyddhau i'r amgylchedd. Mae 66 o rywogaethau ar y rhestr hon ar hyn o bryd.

Daeth Gorchymyn 2019 i rym ar 1 Rhagfyr 2019. Mae'r rhoi'r gofynion yn Rheoliad yr UE ar waith, gan gynnwys disgrifio'r cosbau am dramgwyddo'r cyfyngiadau yn Rheoliad yr UE, amddiffyniadau a darpariaethau eraill sy'n ymwneud â'i gorfodi. Nid yw'r troseddau yng Ngorchymyn 2019 yn gymwys i unrhyw beth a wneir o dan neu yn unol â thrwydded neu hawlen. Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r corff trwyddedu yng Nghymru.

Mae Erthygl 16 o Orchymyn 2019 yn cynnwys amddiffyn i'r gwaharddiad i gadw a chludo anifeiliaid a restrir fel rhai o bryder i'r Undeb. O dan yr eithriad hwn, ceir cadw anifeiliaid anwes am weddill eu hoes naturiol heb drwydded na hawlen lle gellir bodloni'r amodau canlynol: mae'r anifail yn cael ei gadw fel anifail anwes, ac nid at ddiben masnachol; cafodd yr anifail ei gadw cyn rhoi'r rhywogaeth at restr yr Undeb, a chedwir yr anifail mewn daliad wedi'i amgáu a rhoddir pob mesur priodol ar waith i sicrhau na all ddianc nac atgenghedlu.

Gallai AWE allu cadw rhywogaeth o bryder i'r Undeb gyda thrwydded, neu hebdi, gan ddibynnu ar y sefyllfa. Ni fydd angen trwydded gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar AWE os yw anifail, sy'n anifail anwes, yn cael ei gadw am gyfnod dros dro cyn ei ailgartrefu mewn lle arall cyn belled â'i fod yn bosibl parhau i'w gadw fel anifail anwes, bod modd ei ailgartrefu gydag unigolyn preifat fel anifail anwes a bod modd ei roi i AWE arall iddynt hwy ei ailgartrefu, o dan ychydig amgylchiadau i'w gadw dros dro fel anifail anwes cyn ei ailgartrefu. Rhaid cadw anifeiliaid a gedwir o dan yr eithriad ar gyfer anifeiliaid anwes mewn daliad wedi'i amgáu a rhoddir pob mesur ar waith i sicrhau na all ddianc nac atgenhedlu.

Bydd angen trwydded gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar AWE o dan yr amgylchiadau canlynol; cadw anifail a gymerwyd o'r gwyllt a'i gadw mewn caethiwed am weddill ei oes naturiol; cadw anifail y credir iddo fod yn anifail anwes ond na ellir cael hyd i'r perchennog a'i gadw mewn caethiwed am weddill ei oes naturiol; cadw anifail anwes nad oes mo'i angen mwyach ond nad yw'n addas ar gyfer ei ailgartrefu. Ni fydd agwedd fasnachol ar gadw anifail o dan drwydded.

Deddf Anifeiliaid Dinistriol a Fewnforir 1932 a Gorchymyn Gwiwerod Llwyd (Gwahardd Mewnforio a Chadw) 1937

Gwneir Gorchymynion amrywiol o dan y Ddeddf hon i reoli anifeiliaid estron sy'n byw yn y wlad hon. Mae Gorchymyn Gwiwerod Llwyd 1937 yn creu trosedd o gadw gwiwerod llwyd mewn caethiwed heb drwydded. Mae Gorchymyn Coipw a Minc 1972 yn creu trosedd o gadw'r rhywogaethau hyn heb drwydded. Gall fod yn anodd cael trwydded o'r fath gan mai pwrpas y Gorchymynion hyn yw dileu'r rhywogaethau hyn. Mae'r Gorchymyn Cwningod nad ydynt yn Gynhenid (Gwahardd Mewnforio a Chadw) 1954 hefyd yn creu trosedd o ryddhau cwningod nad ydynt yn gynhenid.

Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017

Mae'r ddeddfwriaeth hon yn cael ei chyfieithu i ddeddfwriaeth y Deyrnas Unedig, Cyfarwyddeb Cyngor yr UE 92/43/EEC, Cadwraeth Cynefinoedd Naturiol a ffawna a fflora gwyllt, a elwir yn Gyfarwyddeb Cynefinoedd.

Mae'r ddeddfwriaeth hon yn diogelu cynefinoedd a rhywogaethau ar draws Ewrop ac felly'n cynnwys rhywogaethau a geir yn y DU. Gelwir y rhywogaethau hyn yn Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop a'r Rheoliadau hyn yw'r prif reoliadau sy'n diogelu'r rhywogaethau hyn, nid Deddf 1981. Mae'r rhywogaethau hyn yn cynnwys y dyfrgi, y pathew cyffredin a phob ystlum.

Mae Adran 42 yn darparu amddiffyniad ar gyfer y Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop hyn a restrir yn Atodlen 2. Fel y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad, mae ganddi amddiffynfeydd wedi'u geirio yn yr un modd ar gyfer adfer unrhyw rywogaeth a warchodir o dan Adran 42. Mae'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i bawb sy'n cadw naill ai; anifail gwyllt o rywogaeth a warchodir gan Ewrop neu b; rhan o anifail gwyllt o rywogaeth a warchodir gan Ewrop, neu unrhyw beth sy'n deillio ohono, i feddu ar drwydded. Er y caniateir adfer o dan y Rheoliadau, mae'r amrywiol Sefydliadau Cadwraeth Natur Statudol yn ystyried terfynau amser ar gyfer cadw gwahanol rywogaethau mewn gofal cyn bod angen trwydded. Er enghraifft, nid oes angen trwydded ar AWE i adfer ystlum oni bai ei fod yn bwriadu ei gadw am fwy na chwe mis.

Deddf Gwarchod Moch Daear 1992

Adran 6, eithriadau cyffredinol: Nid yw person yn euog o drosedd o dan y Ddeddf hon oherwydd dim ond –

- (a) cymryd neu geisio cymryd mochyn daear wedi'i analluogi mewn rhyw ffordd ac eithrio gan ei weithred anghyfreithlon ei hun a'i fod wedi'i gymryd at ddiben gofalu amdano yn unig a'i ryddhau pan nad yw bellach yn analluog;
- (b) lladd neu geisio lladd mochyn daear sy'n ymddangos ei fod wedi'i anafu mor ddifrifol neu yn y fath gyflwr fel y byddai ei ladd yn weithred o drugaredd oherwydd ei fod wedi'i analluogi mor ddifrifol ac eithrio gan ei weithred anghyfreithlon ei hun fel nad oedd unrhyw obaith rhesymol iddo wella.

Adran 5(1) Mae person yn euog o drosedd os yw'n nodi, ar wahân i'r hyn a awdurdodir drwy drwydded o dan adran 10 o'r Ddeddf, neu'n atodi unrhyw gylch, tag neu ddyfais farcio arall i fochyn daear heblaw un sy'n gyfreithlon yn ei feddiant yn rhinwedd trwydded o'r fath.

Deddf Ceirw 1991

Mae'r Ddeddf Ceirw yn darparu ar gyfer hela ceirw ac felly'n rheoleiddio sut, ac ym mha fodd, y caiff ceirw eu cymryd. Fel y cyfryw mae hefyd yn cynnwys darpariaethau ar gyfer adfer a/neu ewthanasia.

Adran 6, Eithriadau cyffredinol: (2) ni fydd person yn euog o drosedd o dan adran 2 neu adran 3 uchod oherwydd unrhyw weithred a gyflawnir at y diben o rwystro carw sydd wedi'i hanafu neu sydd ag afiechyd rhag dioddef.

Deddf Cadwraeth Morloi 1970

Pasiwyd y Ddeddf Cadwraeth Morloi i amddiffyn poblogaeth morloi Prydain, ond mae'n rhoi lwfansau ar gyfer rheoli morloi mewn rhai amgylchiadau. Mae hefyd yn cynnwys y darpariaethau canlynol ar gyfer adfer:

The Conservation of Seals Act, 1970, Section 9, General Exceptions:

(1) a person shall not be guilty of an offence under section 2 or 3 of this Act by reason only of –

- (a) the taking or attempted taking of any seal which had been disabled otherwise than by his act and was taken or to be taken solely for the purpose of tending it and releasing it when no longer disabled.

(2) a person shall not be guilty of an offence under section 1, 2 or 3 of this Act by reason only of the killing of any seal which had been so seriously disabled otherwise than by his act that there was no reasonable chance of it recovering.

Deddf Mamaliaid Gwyllt (Gwarchod) 1996

Mae'r Ddeddf hon yn ei gwneud yn drosedd i ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau i achosi dioddefaint i famal gwyllt yn fwrriadol. Mae iddi hefyd eithriadau sy'n gysylltiedig ag ewthanasia.

Section 2, Exceptions from offence under the Act:

(2) A person shall not be guilty of an offence under this Act by reason of –

- (a) the attempted killing of any such wild mammal as an act of mercy if they show that the mammal had been so seriously disabled otherwise than by their unlawful act that there was no reasonable chance of its recovering.

Deddf Trwyddedu Sŵau 1981

Mae'n bosibl y bydd angen i rai Sefydliadau Lles Anifeiliaid Gwyllt (WAVE) gydag anifeiliaid gwyllt caeth gael eu cofrestru a'u harolygu fel sw o dan Ddeddf Trwyddedu Sŵau.

At ddibenion trwyddedu, diffinnir sw fel sefydliad:

- Lle mae anifeiliaid gwyllt (fel y'u diffinnir gan Adran 21 o'r Ddeddf Trwyddedu Sŵau) yn cael eu cadw i'w harddangos i'r cyhoedd (ac eithrio syrcau a siopau anifeiliaid anwes);
- Y mae aelodau'r cyhoedd yn cael eu derbyn am saith niwrnod neu fwy o fewn cyfnod o 12 mis (gyda neu heb dâl mynediad).

Gall Sefydliadau Lles Anifeiliaid Gwyllt (WAVE) agor am hyd at 6 diwrnod y flwyddyn, o dan y ddeddfwriaeth uchod, heb fod angen iddynt gael eu trwyddedu o dan y Ddeddf Trwyddedu Sŵau. Dylent, fodd bynnag, fod yn ymwybodol o'r rhwymedigaethau a'r cyfrifoldebau ychwanegol y gallai agor i'r cyhoedd am unrhyw gyfnod o amser eu hamlygu iddynt.

Deddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976

Os nad yw Sefydliad Lles Anifeiliaid Gwyllt (WAVE) wedi'i gofrestru a'i arolygu fel sw o dan drwydded Deddf Trwyddedu Sŵau, mae'n bosibl y bydd angen trwydded awdurdod lleol i gadw'r rhywogaethau hynny a restrir yn Neddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976. Mae'r rhywogaethau hyn yn cynnwys gwiberod (*Vipera berus*) a chathod gwyllt (*Felis silvestris*). Mae ceidwaid anifeiliaid sy'n cael triniaeth filfeddygol fel arfer wedi'u heithrio.

Deddf Anifeiliaid (Gweithdrefnau Gwyddonol) 1986

Mae defnyddio anifeiliaid mewn arbrofion a phrofion yn cael ei reoleiddio o dan Ddeddf Anifeiliaid (Gweithdrefnau Gwyddonol) 1986. Er bod y ddeddf hon yn ymdrin yn bennaf ag anifeiliaid mewn ymchwil a allai olygu symud anifeiliaid o'r gwyllt er mwyn eu hastudio, gall gweithgarwch monitro ar ôl rhyddhau a marcio ac atodi tagiau ddod o dan y ddeddf hefyd.

Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru a Lloegr) 2005

Rhaid i AWE gofrestru mangreoedd yng Nghymru lle y maent yn cynhyrchu neu'n dal (er enghraifft casglu neu waredu) gwastraff peryglus. Gwastraff a all fod yn niweidiol i iechyd pobl neu'r amgylchedd yw gwastraff peryglus, ac mae'n cynnwys gwastraff anatomegol, meddyginiaethau, offer miniog a gwastraff clinigol. Mae'r rheoliadau yn datgan bod yn rhaid i bob gwastraff peryglus gael ei gasglu naill ai gan gludwr cofrestredig neu gludydd esempt. Os na, mae'n rhaid hysbysu'r

safle. Mae rheoliadau amgylcheddol eraill sy'n ei gwneud yn ofynnol i unrhyw un sy'n cario gwastraff gofrestru gyda Cyfoeth Naturiol Cymru cyn y gallant wneud hynny.

Rheoliadau Meddyginiaethau Milfeddygol 2013

Mae'r Rheoliadau Meddyginiaethau Milfeddygol yn nodi rheolaethau'r DU ar feddyginiaethau milfeddygol, gan gynnwys eu gweithgynhyrchu, eu hysbysebu, eu marchnata, eu cyflenwi a'u gweinyddu. Cyfrifoldeb unrhyw un sy'n ymwneud â'r gweithgareddau hyn yw cydymffurfio â'r Rheoliadau Meddyginiaethau Milfeddygol.

Rhaeadr Milfeddygol

Dylai canolfannau achub bywyd gwyllt a milfeddygon sy'n ymwneud â chanolfannau o'r fath fod yn ymwybodol bod deddfwriaeth yn y DU yn nodi mai dim ond meddyginiaethau milfeddygol fydd yn cael eu defnyddio i drin amodau penodol mewn anifeiliaid, fel y nodir yn y daflen data cynnyrch.

Nid yw'r rhan fwyaf o feddyginiaethau milfeddygol wedi'u hawdurdodi i drin bywyd gwyllt. Os nad oes meddyginiaeth filfeddygol addas wedi'i hawdurdodi yn y DU i drin cyflwr mewn rhywogaeth benodol, gall milfeddyg drin anifail o dan eu gofal yn unol â'r Rhaeadr.

Mae'r Rhaeadr yn goeden benderfynu ar sail risg sy'n caniatáu i farn glinigol ar drin anifail drwy benderfynu pa gynnyrch i'w ddefnyddio pan nad oes meddyginiaeth filfeddygol awdurdodedig ar gael yn y DU. Mae'n arfer da i gael manylion ysgrifenedig a chofnod o'r holl feddyginiaethau a ddefnyddiwyd, ac ar gyfer pa rywogaeth, o dan y Rhaeadr i'w harchwilio gan y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol.

Atodiad 3: Deddfwriaeth nad yw'n ymwneud ag anifeiliaid

- Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974, am ragor o wybodaeth gweler www.hse.gov.uk
- Deddf Tryloywder Lobïo, Ymgyrchu gan Grwpiau Di-Blaid a Gweinyddu Undebau Llafur 2014, gweler www.legislation.gov.uk/ukpga/2014/4/contents/enacted
- Diogelu Data www.ico.org.uk/for-organisations/data-protection-reform/overview-of-the-gdpr

Atodiad 4: Ffynonellau gwybodaeth ychwanegol

- Comisiwn Elusennau www.charitycommission.gov.uk
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru www.wcva.wales
- Cyngrhair Elusennau Bach www.smallcharities.org.uk
- Y Sefydliad Codi Arian www.institute-of-fundraising.org.uk
- Cyngor Llywodraeth y DU www.gov.uk/guidance/how-to-write-your-charitys-governing-document
- Rhwydwaith Lles Anifeiliaid Cymru www.awnwales.org
- Cymdeithas Cartrefi Cŵn a Chathod (ADCH) www.adch.org.uk
- Safonau Lles a Gweithredu Gofynnol ADCH: www.adch.org.uk/about-adch/minimum-welfare-operational-standards/
- Cyngor Lles Ceffylau Cenedlaethol (NEWC) www.newc.co.uk
- Cymdeithas Swolegol Milfeddygol Prydain (BVZS) www.bvzs.org
- Rheoliadau a Chod Statudol Jersey www.jerseylaw.je/laws/revised/Pages/02.050.aspx
- Cymdeithas Cynghorwyr Ymddygiad Anifeiliaid Anwes (APBC) www.apbc.org.uk
- Gwasanaeth Adrodd a Symud Anifeiliaid (ARAMS): www.arams.co.uk/Movements.aspx
- Gwasanaeth Symud Gwartheg Prydain www.secure.services.defra.gov.uk/wps/portal/ctso
- Trwyddedu symud moch yn electronig www.eaml2.org.uk/ami/home.eb
- Rhestr o ddiheintyddion a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru www.disinfectants.defra.gov.uk/DisinfectantsExternal/Default.aspx?Module=ApprovalsList_SI
- Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron Prydain Fawr www.nonnativespecies.org/index.cfm?sectionid=7

Atodiad 5: Enghraifft o Bolisi Rhyddhau

- Yr AWE sy'n gyfrifol am sicrhau bod rhyddhau unrhyw rywogaeth yn gyfreithlon.
- Cyn eu rhyddhau, dylai anifeiliaid gael eu hystyried yn gwbl iach ac yn gallu ymdopi drostynt eu hunain yn y gwyllt. Dylai asesiad ffitrwydd ystyried asesiadau clinigol, ymddygiadol a chorfforol (pwysau, sgôr cyflwr y corff, y gallu i hedfan/rhedeg ac ati). Dylid cynhyrchu gweithdrefnau ysgrifenedig ar gyfer asesu anifeiliaid cyn eu rhyddhau, a'u diweddarau yn unol â llenyddiaeth gyhoeddedig newydd a thystiolaeth wyddonol.
- Ni ddylid rhyddhau anifeiliaid os tybir bod yr anifail yn llawer llai tebygol o ffynnu yn y gwyllt nag anifail arall o'r un rywogaeth.
- Dylai'r ganolfan ddatblygu protocolau ysgrifenedig sy'n manylu ynghylch y broses asesu a gwneud penderfyniadau, yn enwedig o safbwynt amodau a allai atal rhyddhau rhag cael ei nodi'n gynnar yn ystod y cyfnod gofal, ac ewthaneiddio'n digwydd mor gynnar â phosibl.
- Dylid rhyddhau anifail cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl iddo gael ei ystyried yn addas i'w ryddhau, gan ddibynnu ar nifer o ffactorau eraill, gan gynnwys safleoedd rhyddhau addas, amodau tywydd cyfredol, effeithiau tymhorol ar leoliad (e.e. gaeafgysgu, mudo), ond heb gael ei oedi'n ddiangen.
- Nod adfer bywyd gwyllt yw rhyddhau'r anifail yn ôl i'w amgylchedd gwreiddiol, neu fan addas arall. Mae rhyddhau i'r ardal wreiddiol yn ddelfrydol, gan fod yr anifail yn gyfarwydd ag ef, gall fod ganddo diriogaeth yno, ac ati. Mae rhyddhau i le addas arall yn opsiwn arall, ond gyda phroblemau posibl yn codi ar gyfer yr anifail (ddim yn gyfarwydd â'r ardal, grŵp meddiannol neu gymdeithasol yno eisoes, a'r tebygolrwydd o ddiodef anaf wrth geisio dychwelyd i fannau cyfarwydd).
- Dylid gwneud gwaith dethol ac arolygu priodol ar safleoedd rhyddhau. Yn ddelfrydol, dylai hyn gynnwys aelodau o staff ac ecolegwyr lleol a rheolwyr cadwraeth a gweithwyr bywyd gwyllt sy'n meddu ar wybodaeth leol, a chydag ymgynghoriad a chytundeb y tirfeddiannwr.
- Os yw anifeiliaid i gael eu trawsleoli i ardaloedd newydd, mae peryglon i'r boblogaeth bresennol o anifeiliaid o'r fath a rhywogaethau eraill, oherwydd clefydau newydd yn cael eu cyflwyno i ardal, ac mae angen rhoi sylw i'r holl beryglon hynny. Dylid cyfeirio at ganllawiau trawsleoli Undeb Rhyngwladol Cadwraeth Natur a chadw atynt oni bai bod sail gadarn dros wyro oddi wrthynt.
- O dan Adran 14 o'r Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad, rhaid i Sefydliadau Lles Anifeiliaid Gwyllt (WAVE) beidio â rhyddhau, neu ganiatáu dianc i'r gwyllt yn fwriadol, unrhyw rywogaeth nad yw'n gynhenid (a rhai rhywogaethau cynhenid), ac eithrio o dan drwydded gan yr awdurdod priodol. Gall amodau'r drwydded gynnwys cyfyngiadau daearyddol ar ryddhau'r anifail (e.e. ar gyfer gwiwerod llwyd). Ceir cyfyngiadau tebyg o dan Orchymyn Rhywogaethau Goresgynnol Estron (Gorfodi a Chaniatáu) 2019 o ran rhyddhau rhywogaethau a chaniatáu iddynt ddianc.

Atodiad 6 – Enghraifft o Bolisi Ewthanasia (yn yr achos hwn, ar gyfer bywyd gwyllt)

- Yn ymarferol, y prif reswm dros ewthanasia yw diffyg disgwyliad rhesymol y bydd gan yr anifail obaith realistig o oroesi ar ôl cael ei ryddhau ag sydd gan ei gymheiriaid gwyllt. Gellir gwneud y penderfyniad hwn adeg derbyn yr anifail claf, neu ar unrhyw adeg cyn iddo gael ei ryddhau. Lle bernir bod angen hynny, dylid cyflawni ewthanasia mor gynnar yn y broses adfer ag sy'n bosibl, yn ddelfrydol o fewn y 24-48 awr gyntaf, neu cyn gynted ag y daw'n amlwg ei bod yn anaddas rhyddhau'r anifail claf neu amddifad.
- Bydd y rhan fwyaf o benderfyniadau ewthanasia yn seiliedig ar:
 - Lles uniongyrchol yr anifail e.e. anafiadau difrifol neu glefyd cronig
 - Lles y tymor canolig – a fydd yr anifail angen ymyrraeth filfeddygol sylweddol a allai gynnwys nyrsio dwys a fydd yn gwneud yr anifail yn agored i lefelau annerbyniol o straen a/neu'n gadael yr anifail ag anabledd parhaol
 - Lles yn yr hirdymor – a yw'r anifail yn ymgeisydd addas ar gyfer adferiad? A fydd ganddo'r priodoleddau corfforol a meddyliol angenrheidiol ar ôl ymyrraeth filfeddygol a/neu adfer dilynol i oroesi a chael ei gynnwys mewn poblogaeth fridio ar ôl cael ei rhyddhau?
 - Mae'r anifail wedi ei restru ar Atodlen 9 o Ddeddf 1981 ac ni ellir cael trwydded ar gyfer ei ryddhau
 - Gall ffactorau ar wahân i iechyd anifeiliaid (e.e. darparu niferoedd digonol o safleoedd rhyddhau addas, cam-imbrintio, hyd tebygol cyfnod gwella/adferiad, gofynion cyfreithiol, pryderon eraill ynghylch ymddygiad) fod yn sail i ewthanasia hefyd, gan dybio y caiff pob opsiwn ymarferol ei archwilio
 - Mae'r anifail yn estron fel y'i diffinnir gan Adran 14 o Ddeddf 1981, neu fe'i rhestrir yn Atodlen 9 i Ddeddf 1981 ac ni ellir sicrhau trwydded ar gyfer ei rhyddhau.
- ewthanasia. Dim ond os na ellir rhyddhau anifail ac y gellir darparu amodau caeth gydol oes, sy'n bodloni pob un o'r 'Pum Angen' y dylid ystyried caethiwed hirdymor. Nid yw bridio at ddibenion cadwraeth ond yn ddewis amgen addas i ryddhau ar gyfer rhai rhywogaethau prin (e.e. gwiwerod coch), ac mae hynny'n gofyn am safleoedd rhyddhau addas ar gyfer yr epil, a llety addas i'r rhieni.
- Dylai aelod o staff fod ar gael yn hawdd bob amser i wneud penderfyniadau ynglŷn ag ewthaneiddio anifeiliaid sâl ar gyngor milfeddygol. Dylid pennu dull dyngarol effeithiol o ewthaneiddio a phrotocolau ysgrifenedig safonol.
- Dylai cyfleusterau a staff cymwys sydd wedi'u hyfforddi'n briodol fod ar gael i sicrhau y gellir darparu ewthanasia brys bob amser, heb fod angen i filfeddyg wneud diagnosis.
- Dylai staff fod yn ymwybodol o'r materion cysylltiadau cyhoeddus a allai fod yn gysylltiedig â lladd anifeiliaid, a'u hyfforddi i ymdrin â hynny.

Atodiad 7: Enghraifft o Bolisi Ailgartrefu (yn yr achos hwn, ar gyfer cŵn)

Ewch i: www.hoperescue.org.uk/dogs/adopting-a-hope-rescue-dog

Atodiad 8: Clefydau Hysbysadwy

I gael rhagor o wybodaeth am Glefydau Hysbysadwy, ewch i: www.gov.uk/government/collections/notifiable-diseases-in-animals

Atodiad 9: Codau a ddefnyddir o fewn y Cod hwn

- Cymdeithas Cartrefi Cŵn a Chathod (ADCH): www.adch.org.uk/about-adch/minimum-welfare-operational-standards/
- Cymdeithas Swolegol Milfeddygol Prydain (BVZS): www.bvzs.org/images/uploads/BVZS_Good_Practice_Guidelines_for_Wildlife_Centres_011016_.pdf
- Rheoliadau a Chod Statudol Jersey: www.jerseylaw.je/laws/revised/Pages/02.050.aspx
- Cyngor Lles Ceffylau Cenedlaethol (NEWC): www.newc.co.uk/wp-content/uploads/2011/10/CoP-FINAL-WEB-VERSION.pdf